

ECO'R WYDDFA

RHIF 367

MEHEFIN 2009

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Ble mae 'Genod Ni'? tud.3
- O Siambar Selwyn tud.15
- Doctor Dail Nant Peris tud.17
- Llwyddiannau Ieuenctid y Fro tud.17

CORONI LLWYDDIANNAU LLEOL



PENCAMPWYR CYMRU

Y sgwad oedd:

1. Carwyn Eddy; 2. Gryffydd John; 3. Gwion Williams; 4. Iwan Price; 5. Louis Williams; 6. Gethin Maxwell (Capt) (Chester FC); 7. Daniel Bell; (Oodham FC); 8. Ezra Warren; 9. Richard Cashman; 10. Jamie Mc.Daid (Wrexham FC) + Cymru; 11. Ian Williams; 12. Dyfan Coles; 13. Tomos Emlyn (Oldham FC); 14. Sam Markham; 15. Sion Kyle; 16. Gavin Williams.

Brynrefail 3-0 Barry
Comp

Gethin Maxwell, Iwan
Price, Sion Kyle

Adroddiad gan y Chwaraewyr

Roedd y ffeinal yn ffantastic, sgoriais hefyd ac roedd y teimlad yn wych. Roedd curo'r cwpan yn anodd am ein bod wedi chwarae yn erbyn timau caled ond roeddym yn well na'r timau eraill i gyd.

IWAN PRICE
Cefnwr canol y tîm

Mwyheuais y ffeinal yn fawr iawn. Roedd y diwrnod i gyd yn brofiad anhygoel. Roedd fel bod yn chwaraewr proffesiynol, yn cael tynnu lluniau a chlywed y gerddoriaeth champions league wrth gerdded allan ar y cae. Roedd y cae yn anhygoel,


cae plastic efo gwair!! Roedd y gêm yn gyffrous ofnadwy ond Brynrefs oedd y tîm gorau ar y diwrnod.

Anhygoel bod yn nhîm pêl-droed gorau Cymru.

SAM MARKHAM
Chwaraewr canol cae

PENCAMPWR TRAWS GWLAD CENEDLAETHOL YR URDD

CORON MÔN I'R GOLYGYDD CHWARAEON



Nid chwaraeon yw unig ddiddordeb Richard Llwyd Jones ond priodol iawn yw ei longyfarch y mis hwn yng nghanol llwyddiannau athletaidd ieuenctid y fro.

Ef oedd enillydd haeddiannol Coron Eisteddfod Môn yn Amlwch. Ymlaen am y Gennedlaethol...



Llongyfarchiadau i Kieran Forrest o Ysgol Llanrug. Wedi iddo ennill Tlws Traws Gwlad Yr Urdd, rhanbarth Eryri aeth ymlaen i gipio'r Tlws Cenedlaethol i rai dan 9 draw yn Aberystwyth. Tipyn o gamp.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 367
MEHEFIN 2009**
Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Aber-y-Bryn (872279)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Beunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL Mehefin 21ain

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU Gorffennaf 2il
Dyddiad Gosod
SUL Mehefin 29ain, 5 y pŵn
Sefydliad Goffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Gorffennaf	Sul 19 Gorffennaf	Sul 28 Gorffennaf	Iau 30 Gorffennaf	Bethel	Geraint Elis	01248 670726
Medi	Sul 24 Awst	Sul 30 Awst	Iau 3 Medi	Bethel	Goronwy Hughes	674839

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Ceir y
manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arno
i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes
Tan y Clogwyn,
Llanberis, LL55 4LF
Ffôn: 01286 871 562

Y ceisiadau i gyrraedd yr ysgrifennydd erbyn 31 Awst 2009.
Ni ystyir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau
penodedig.

Llythyrau

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2012

Annwyl Gyfaill
Yn ddiweddar mae'r Urdd
wedi bod yn trafod gyda
gwirfoddolwyr a chefnogwyr y
Mudiad oddi fewn i ranbarth
Eryri, ynghyd â sefydliadau
eraill, y posibilrwydd o gynnal
Eisteddfod Genedlaethol Urdd
Gobaith Cymru yn y sir yn y
flwyddyn 2012.

Fodd bynnag, mae sicrhau
cefnogaeth y bobl leol a
chefnogaeth sefydliadau,
mudiadau a chymdeithasau ar
draws y sir yn hanfodol i
lwyddiant unrhyw Eisteddfod.
I'r perwyl hwnnw cynhelir
cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol
Uwchradd Dyffryn Nantlle,
Penygroes, nos Fercher, 1
Gorffennaf 2009 am 7.00 o'r
gloch i drafod y gwahoddiad
hwn, a charwn eich gwahodd
yn gynnes iawn i'r noson.
Byddem yn dra diolchgar am
bob cefnogaeth y gallwch ei
roi.

Yn gywir

SHEELAGH EDWARDS
Trefnydd yr Eisteddfod
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Llanuwchllyn

Hysbyseb y cyfarfod - dud.19

Crocsair Diwrnod y Llyfr 2009

Annwyl Gyfaill
Dacth yn amser cyhoeddi
enwau'r unigolion a'r papurau
bro a ddaeth i'r brig yn y
gystadleuaeth uchod.

Enillwyd y tocynnau llyfr
gwerth £30 yr un am y tri ateb
cywir cyntaf a dynnwyd o'r het
gan:
Mair Evans, Cresford,
Wrecsam (Y Clawdd)

Dilys Jones, Cross Inn,
Llandysul (Y Gambo)
Lona Jones, Bethesda Bach,
Caernarfon (Papur Dre)

Llongyfarchiadau mawr i'r
tair. Bydd y tri phapur bro yn
derbyn sicr am £50 yr un.

Llawer o ddiolch i'r papurau
a'r cystadleuwyr am eu
cefnogaeth a llongyfarchiadau
unwaith eto i'r enillwyr.

Yn gywir
DELYTH

Ar ran Cyngor Llyfrau Cymru

Canolfan Hanes Uwchgwyrfai

Annwyl Ddarllenwyr
Dymuna Canolfan Hanes
Uwchgwyrfai hysbysu
darllenwyr Eco'r Wyddfa mai
nos Iau, 18 Mehefin 2009, yw
dyddiad newydd y Ddarlith
Flynyddol gan Yr Athro Hywel
Teifi Edwards, a hynny am 7
o'r gloch yn Ebeneser, Clynnog
Fawr, ar Eos Morlais.
Mynediad £3. Mae hyn
wythnos yn ddiweddarach na'r
trefniant gwreiddiol. Dewch
yn llw.

Yn gywir

MARIAN E ROBERTS

Cronfa OGO8 Ysbyty Gwynedd

Dymuna Ian Pierce ddiolch yn
ddiffuant i Edwina Jones,
Trigfan, Y Carnedd,
Llanfairpwll; Hogia Golf
Dydd Mawrth; Geoff Powell,
Treddafydd, Waunfawr ac
aclodau o'i ddosbarth Yoga,
am eu rhoddion hael a
gasglwyd er cof am ci
ddiweddar briod, Eirlys.

Trosglwyddwyd swm o
£1,350 i Gronfa Ymchwil
Gynecolegol OGO8 yn ystod y
flwyddyn hon.

RHODDION

£20: Delyth ac Alwyn
Williams, Bryn Gaer,
Penisarwaun; Helen a
Dafydd Owen, 7 Bryn
Hyfryd, Penisarwaun;
Mrs Ann Hughes, Y
Bwthyn, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug.

£15: Tom Parry, Hagley,
Dienw, Tanycoed.

£10: Dilwyn Thorman,
Deiniolen; Gwen
Griffith, Fron, Deiniolen;
Alan Wyn Lewis, Siôn,
Chris, Daniel, Ralph a
Laura, Tan Rhiw,
Deiniolen gynt; Tracy
Hughes, Llys Myfyr,
Deiniolen; Mrs Mair
Williams, Elidir View,
Bwlch, Cwm y Glo; Liz
Roberts, Dalar Deg, 7
Lôn y Meillion, Eithinog,
Bangor; Mrs Eirwen
Williams, 1 Bryn Gro,
Llanrug; Teulu Jack
Hughes, Cartref Gwynfa,
Caernarfon.

£8.50: Gwilym Ellis,
Llandrindod.

£5: Eirian, 11/12 Stryd
Newydd, Deiniolen;
Gwenlli, a Teleri, Maes y
Bryn, Pontrug; Di-enw,
Llanrug; Teulu Treforfan,
Waunfawr; Mr a Mrs
Gwynedd Williams, 2 Bro
Waun, Waunfawr; Mrs
Helen Wyn Jones, 3
Rhydfadog, Deiniolen;
Ann Owen, 1 Llys y
Gwynt; Mrs Blodwen
Pritchard, 10 Llys y
Gwynt, Penisarwaun;
Jennie Angharad Roberts,
2 Ffrwd Madog,
Brynrefail; Jennie
Williams, 1 Rhyd Fadog,
Deiniolen.

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Noddir gan
Lywodraeth
Cymru



**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

GŴYL FFIDIL I'R WYDDFA

Eleni, ar Mehefin 13eg bydd Gŵyl Ffidil yr Wyddfa yn dathlu chwe blynedd ar galendr sin werin Gwynedd. Diddanwyd cynulleidfaoedd yn flynyddol gan berfformiadau o safon yn yr Ŵyl ym mhentref bach Nant Peris, rhwng y capel a'r dafarn. Mae cyngerdd nos Sadwrn yn cyflwyno Ceri Rhys Matthews a Christine Cooper, ynghyd â'r ffidlwyr, Dan Morris a Gwilym Hardy.

Mae Ceri Rhys Matthews o Dde-Orllewin Cymru bellach yn wyneb cyfarwydd yn yr ardal ac yntau yn diwtor yn Galeri, Caernarfon. Yn bibydd, yn fflwytydd, yn byrlymu brwdfrydedd dros ein cerddoriaeth gynhenid, daeth ynghyd â Christine Cooper, ffidlwraig ifanc, ddawnus o Ddinbych y Pysgod, i greu deuawd sy'n cyfleu prydferthwch cerddoriaeth a chaneuon Cymru mewn dull cywrair a thyner.

Yn hanu o Ddolgellau, ond bellach yn byw yn Llandeilo, bydd chwarae cyhyrog, meistrolgar Dan Morris yn gyfarwydd i bawb sy'n cofio'r grŵp gwerin dylanwadol, Cilmeri, ac roedd yn sylfaenydd y band Gwerinos yn ddiweddarach. Hefyd bydd Gwilym Hardy, ffidlwr ifanc o Aberystwyth, yn dod â wyneb a thalent newydd i'r Ŵyl.

A ffidlwyr lleol Clwb Ffidil yr Wyddfa a'r dirgel Tri Mwsreadur yn ymuno ar y llwyfan, mae safon y gerddoriaeth yn addo bod o'r radd flaenaf eto eleni. Mae'r diwrnod yn llawn gweithgareddau i'r teulu i gyd, o'r clocio, y gweithdai ffidil o bob safon ar gyngerdd llwyfan agored, i bypedau a chwedleua ac, wrth gwrs, sesiwn werin drwy'r dydd a'r nos!

Am wybodaeth pellach, cysylltwch â ni ar (01286) 831762 neu:

www.gwylffidil.info



Dalar Deg, 7 Lôn y Meillion, Eithinog, Bangor

Annwyl Gyfeillion

Wth chwilota yn yr atig y dydd o'r blaen cefais hyd i'r llun yma.

I BLE AETH PAWB – wel, yr ateb ydyw fod pob un ohonynt namyn un wedi aros yn eu bro enedigol ac yn weithgar yn y fro honno. Eluned yw'r unig un sydd wedi gadael y fro ac yn byw yn awr ym Mro Colwyn, a hithau yr un modd yn cyfrannu yn helaeth at ddiwylliant y fro honno. Pwy fuasai'n meddwl

fod Margaret Roberts newydd ddechrau ar ei swydd anrhydeddus o fod yn Faeres Bwrdeistref Frenhinol Caernarfon, hithau wedi cyfrannu yn helaeth dros y blynnyddoedd i Eco'r Wyddfa.

Buasai'n grêt petai dyn camera yr Eco yn gallu cael y 'genod' yn eu holau i dynnu'r llun waith yn rhagor. Beth amdani?

Pob dymuniad da i'r Eco, Byddaf wrth fy modd yn ei ddarllen.

Yn gywir iawn, LIZ ROBERTS

CROESO I FEICWYR?



...OND CLO AR Y GIÂT!

Wedi misoedd o ddisgwyl i osod arwyddion Lôn Las Peris ar y llwybr newydd a gwblhawyd o amgylch Craig yr Undeb, siom yw gweld mai camfa a giât wedi ei chlo'i sy'n wynebu beicwyr ar

ochr Penllyn o'r llwybr. Pa bryd tybed y ceir llwybr beicio addas yn ein dyffryn i gymharu â'r rhai a gafwyd yn nyffryn Ogwen, dyffryn Gwyrfa'i a Lôn Eifion?

AMSERLEN EISTEDDFOD LLANGOLLEN

Llun 6ed Gorffennaf: Gala Agoriadol - Faryl Smith, Mark Evans, Côr Meibion y Fron, Cantorion Colin Jones, Côr Godre'r Aran, Alexei Kalvecs

Mawrth 7ed Gorffennaf: Barbara Dickson, Yn Fyw yn Llangollen.

Mercher 8ed Gorffennaf: Cyngerdd Heddwch Llangollen.

Iau 9ed Gorffennaf: Syr Willard White

Gwener 10ed Gorffennaf: Blake a Natasha Marsh

Sadwrn 11ain Gorffennaf: Côr y Byd

Sul 12ed Gorffennaf: Licensed to Thrill – Carl Davies yn cyflwyno cerddoriaeth James Bond gyda Honor Blackman.

Mawrth 7ed Gorffennaf: Diwrnod Ryngwladol y plant

Mercher 8ed Gorffennaf: Diwrnod cerddoriaeth a dawns Ryngwladol

Iau 9ed Gorffennaf: Diwrnod Ryngwladol Icuencid

Gwener 10ed Gorffennaf:

Diwrnod Ryngwladol Geltaidd a Gwerinol

Sadwrn 11ain Gorffennaf: Diwrnod Ryngwladol y Teulu

Sul 12ed (newydd): Diwrnod ychwanegol o weithgareddau a cherddoriaeth ar Maes yr Eisteddfod ac yn dref Llangollen

Ar gyfer tocynnau neu fanylion pellach 01978 862001 neu www.eisteddfod-ryngwladol.co.uk

Gwybodaeth Ychwanegol:

Caiff ddeiliaid Tocyn Tymor Llawn ddewis o'r seddi gorau yn y Pafiliwn i fwynhau cystadlacthau a chyngherddau'r Eisteddfod o ddydd Mercher hyd ddydd Sadwrn, am ddim ond £125 - gostyngiad rhyfeddol o 23%. Yn ychwanegol, mae gostyngiad unigryw ar docynnau Cyngerdd Nos Fawrth - prynwch docyn £35 am £30. Caiff ddeiliaid Tocyn Tymor hefyd Gofraglen yr Eisteddfod yn rhad ac am ddim

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholladau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672020 neu 01341 422975

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warrant 3420271

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

UN FUNUD FACH

YR AWEL

Os cawn dywydd go lew'r haf yma, fe ddaw pobl y llongau am dro i Lanberis eto mae'n debyg. Maen nhw'n dod yn rheolaidd ac mae'n werth gweld y modelau amrywiol sydd ganddynt ar y llyn. Mae'n werth gweld y llongau hwylio bychain yn symud yn braf ar wyneb y dŵr. Wrth gwrs, mae'r llongau go iawn yn fwy gosgeiddig fyth. Mae'n werth gweld y gwynt yn cydio yn yr hwyliau a'r llongau'n torri trwy'r tonnau.

Llongau digon trist yr olwg yw llawer o eglwysi'n gwlad y dyddiau hyn, yn gorwedd yn llonydd ar wyneb y don. Does fawr o siâp symud arny'n nhw, a rhyw aros yn eu hunfan y mae cymaint ohonyn nhw ar y gorau. Maen nhw'n cael eu curo gan y tonnau, ac yn aml mewn peryg o gael eu taflu ar y creigiau. Mae'r criw'n gwneud eu gorau i'w diogelu, ac yn ceisio hyd yn oed eu rhwyfo yn eu blaenau gorau medran nhw. Ond mae angen y gwynt arnynt.

O brif wyliau'r Ffydd Gristnogol, y Pentecost o bosibl yw'r un a gaiff y lleiaf o sylw gan y rhan fwyaf ohonom. Ond dyma'r wyl sy'n ein hatgoffa am y nerth sydd ar gyfer yr Eglwys, ac mae'n drist ein bod yn llwyddo i anghofio'n fynych am yr hyn a ddigwyddodd ar y Pentecost

hwnnw pan dywalltodd Duw ei Ysbryd ar ddisgyblion yr Arglwydd Iesu. Nerth yr Ysbryd Glân a wnaeth i'r disgyblion hynny allu cyhoeddi'r Efengyl yn effeithiol, a gallu'r Ysbryd a lwyddodd eu cenhadaeth.

Mae angen yr awel o'r nefoedd arnom heddiw. A ninnau'n straffaglu i ddal y llong rhag suddo a'i chadw oddi ar y creigiau, gweddiwn y bydd gwynt Ysbryd Glân Duw yn cydio yn ei Eglwys fel y bydd yn hwylio'n ei blaen. Mae angen tacluso bwrdd y llong, a gwneud ein gorau i rwyfo mewn dyddiau pan nad oes fawr o awel. Mae angen codi'r mast a gosod yr hwyliau'n eu lle, gan wneud popeth sydd o fewn ein gallu i ddiwygio a gwella bywyd a thystiolaeth ein heglwysi. Ond yn y pen draw, y peth sydd ei angen arnom yw cael yr awel o'r nef i chwythu arnom. Gweddiwn y bydd Duw yn trugarhau wrthym ac yn tywallt ei Ysbryd ar ei bobl, fel y gwelwn eglwysi'n gwlad yn dechrau symud yn hyderus. Boed i'w awel chwythu fel bod llongau bach ein heglwysi lleol yn cael eu cyffroi a'u bywhau. Ond mwy na hynny hyd yn oed, boed i'r gwynt nerthol symud trwy'n gwlad fel bod llong fawr Eglwys Iesu Grist yn hwylio'n urddasol gan gario Efengyl Gras i bob cwr o Gymru'r dyddiau tywyll hyn.

JOHN PRITCHARD

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â Gomer Roberts

Ffôn: 01286 870462

Symudol: 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Atebion Croesair Diwrnod y Llyfr 2009

1	H	A	N	N	E	R	A	M	S	E	R		M	A	B				
	O		E		G			A		L			A		Y				
	P		B	O	R	E		N		E	I	L	I	A	D				
	W				Y			O		N		E			O				
11	O	L	W	Y	N	I	O	N				13	M	E	L	O	G		
	O			M						14	A		W				Â		
	D			15	C	A	N	T	O	E	N	G	L	Y	N	I	O	N	
				U					R		E					A			
18	B	U	D	D	U	19	G	W	I	L	L	I	A	M	S		21	M	
	O					L		G						U			E		
22	W	A	L	23	D	O				24	B	A	L	25	E	D	W	Y	R
	N				U			26	R	H				U				E	
27	S	M	28	A	R	T	I		R			29	G	R	A	30	S		R
	I			N			F		T			I			W			I	
31	O	F	N					32	C	O	D	I	B	W	G	A	N	O	D

ENILLWYR ELENÍ

Mair Evans, Gresford (Y Clawdd)

Lona Jones, Bethesda Bach (Papur Dre)

Dilys Jones, Cross Inn, Llandysul (Y Gambo)

Bydd y tair yn derbyn tocyn llyfr gwerth £30 yr un a bydd y tri papur bro yn derbyn sic am £50 yr un.

Llongyfarchiadau i'r enillwyr a diolch i bawb am eu hymatebion a'u cefnogaeth



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
gwailes.com
llyfrau ar-lein

CYMDEITHAS CARAFANWYR CYMRU

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1970, adeg Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman, gan nifer o garafanwyr. Cymry Cymraeg a ddymunai sefydlu Cymdeithas i hybu teithio a charafanio, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Ers hynny mae'r Gymdeithas wedi ffynnu a datblygu.

Pennir Pwyllgor i'r Gymdeithas ynghyd â Chadeirydd (Eifion Hughes, 27 Nant Bychan, Moelfre, Ynys Môn LL72 8HE) a Swyddogion yn y cyfarfod/cinio blyneddol yn yr hydref, gyda chnewyllyn pwyllgor yn gweinyddu dros ddwy flynedd. Trefnir rali adref a rali dramor am gyfnodau hyd at bythefnos o hyd yn ystod misoedd yr haf. Cydol gweddill y flwyddyn trefnir ralioedd penwythnos mewn gwahanol ardaloedd yn ne a gogledd Cymru. Yn ystod y raliau hyn daw aelodau a'u cyfeillion gyda'u carafanau am gyfnodau o ymweld â diddordebau lleol, golff, siopa ayyb. Gyda chyfle i ymweld â'r gwahanol ardaloedd ac i gymdeithasu â'i gilydd.

Cynhelir gweithgareddau o ddiddordeb i bawb, ciniawa, barbeciw, gemau, gweithgareddau i'r plant a'r ieuencid, ac mae cyfle i bawb, ffrindiau hen a newydd i gael hwyl a sbri ac ymlacio gyda'i gilydd.

Ddwy waith y flwyddyn bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi ei chylechgrawn, 'Y Nomad', sy'n cynnwys adroddiadau a lluniau o'r

raliau yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r raliau sydd ar y gweill i'r dyfodol.

Gwerthfawrogrir unrhyw erthyglau neu newyddion i'w danfon at y Golygydd (Vaughan Evans, Bro Afallon, Tŷ'r Eithin, Tregaron SY25 6LU, Ffôn: 01974 251270).

Bydd y swyddog raliau, Dewi Morris Jones, Llwynderw, Bronant, Aberystwyth, Ceredigion. Ffôn: 01974 251264 yn gyfrifol am gydlynw a sicrhau addasrwydd y meysydd raliau i siwtio pawb. Yn rheolaidd, fe gynhwysir yn 'Y Nomad' wybodaeth am faterion o ddiddordeb i garafanwyr ynghyd â phwy yw pwy yn y Gymdeithas.

Croeswyr aelodau sy'n garafanwyr o bob oedran a chefnidir, o bob rhan o Gymru. Cymdeithas Gymraeg ei chyfrwng yw Cymdeithas Carafanwyr Cymru. Y tal blyneddol yw £10 a fe'i telir i'r Ysgrifennydd Aelodaeth: Cyril Golding, Y Gorlan, 20 Ffordd Rhuthun, Yr Wyddgrug, Sir Fflint, CH7 1QQ.

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd (Brian Roberts, Moelwyn, 7 Pen y Maes, Rhuthun, LL15 1DD. Ffôn: 01824 705938) neu unrhyw un o'r swyddogion eraill am wybodaeth bellach ynghyd â rhestr o'r raliau arfaethedig am 2009. Edrychir ymlaen yn fawr i'ch gweld yn ymuno â ni ar un o'n ralioedd ac yn dod yn aelod o Gymdeithas Carafanwyr Cymru. Ddifarwch chi byth!

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

HOFFAI Dilwyn Thorman ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am ei gefnogi a'i nodd i redeg Marathon Llundain er budd Cancr y Fron. Casglwyd oddeutu £6,000 i'r elusen.

Diolch yn fawr iawn i bawb. DYMUNA Tracy Hughes, Llys Myfyr, sydd yn awr yn aelod o'r Heddlu Metropolitan yn Llundain ddiolch yn fawr iawn am yr holl arian sponsor a gafwyd iddi hi redeg Marathon Llundain ar ddydd Sul, 26 Ebrill. Bydd y casgliad yn mynd tuag at blant sy'n cael eu geni un ai heb lygaid neu gyda nam arnynt, sef Micro and Anophthalmic Children's Society.

Diolch i ffrindiau a chymndogion.

DIOLCH. Dymuna Eirian, 11/12 Stryd newydd, ddiolch yn fawr i'r plant, teulu a chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 70 oed.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Daeth tymor y Gymdeithas i ben nos Fawrth, 28 Ebrill gyda'r swper blynyddol a gynhaliwyd eleni yng Nghlwb Golff Caernarfon. Cafwyd bwyd ardderchog ac roedd pawb wedi mwynhau'r wled.

Cyflwynwyd y gŵr gwadd, sef Mici Plwm, gan y gweinidog, a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ganddo am ei hunangofiant, Mici Ddrwg o Dwll y Mwg. Soniodd am rai o'i deithiau i wahanol rannau o'r byd a chafwyd noson llawn hwyl a chwerthin. Ar y diwedd cafwyd cyfle i brynu copi o'r hunangofiant wedi ei arwyddo gan yr awdur.

Roedd y noson yn cael ei nodd gan yr Academi.

DYMUNA Alan Wyn Lewis, Siôn, Chris a Daniel, hefyd Ralph a Laura (Tan Rhiw, Deiniolen, gynt) ddiolch o galon i'r teulu a'u ffrindiau oll am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth drist o golli Lynda a fu mor annwyl iddynt. Diolch am yr ymweliadau, y cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch hefyd am yr arian a dderbyniwyd tuag at Gronfa C.J.D. a Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd, lle cafodd y gofal gorau posib.

Hefyd diolch i Gaplan yr ysbyty, Mr Wyn Roberts, ac yn arbennig i'r Ymgymerywyr, Stephen Jones a'i gwmni, Penrhos, Bangor.

CYSTADLEUAETH PÊL-DROED DEINIOLEN. Cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-droed dan 11 Cynghrair Gwyrfa'i yn Neiniolen yn ystod mis Mai. Er gwaethaf ambell i gawod o law reit drwm, cafwyd diwrnod llwyddiannus ac roedd cynrychiolaeth dda o'r ardal yn cymryd rhan.

Enillwyr haeddiannol Grŵp A y gystadleuaeth oedd Nantlle Vale a gurodd Y Bontnewydd yn rownd derfynol y bore.

Erbyn y pnaawn a chystadleuaeth Grŵp B, y criw lleol ddaru orchfygu: Deiniolen yn curo Y Bontnewydd yn y rownd derfynol, o 3 gôl i ddim.

Diolch i'r criw gweithgar ddaru drefnu'r cwbl a chynnal y gystadleuaeth yn ystod y diwrnod a da oedd gweld yr haul yn gwenu erbyn diwedd y dydd.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechedd buan i bawb a fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar. RACE FOR LIFE / RAS BYWYD, CAERNARFON.

Llongyfarchiadau i bawb o'r pentref a fu'n cymryd rhan yn y ras yma yn ddiweddar. Casglwyd swm sylweddol o arian tuag at yr achos teilwng hwn.

DYMUNIADAU GORAU i bawb o'r pentref sydd ar fin cymryd eu arholiadau TGA, lefel A ac arholiadau Coleg. Pob lwc i chi i gyd.

CYMANFA. Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Coch, Llanberis ar 17 Mai. Cafwyd Cymanfa fywiog a cymerodd plant Ysgol Sul Ebeneser ran, gan adrodd stori Dameg yr Heuwr. Gwnaeth pawb ei ran yn ardderchog.

DYMUNA Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Gwaun Gynfi ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i'r noson gymdeithasol gyda'r Moniars a Sara Mai yn Nhafarn y Bedol, Bethel, nos Wener, 15 Mai. Cafwyd noson hwyliog a llu o roddion gan unigolion a chwmnïau lleol ar gyfer ein Ocsiwn Addewidion yn ystod y noson. Gwnaethpwyd elw teg tuag at gronfa'r ysgol.



Tim llwyddiannus Deiniolen, Grŵp B dan 11.

MERCHED Y WAWR

Treuliodd y gangen mis Ebrill yn ymweld ar Llyfrgell yng Nghaernarfon a chafwyd noson arbennig. Darllenodd dwy o staff y Llyfrgell rannau o bedwar o staff y Llyfrgell llyfr sef 'Ar y Lein' Bethan Gwanas 'Omlet' Nia Medi, 'Teulu Lord Bach' Geraint V Jones, a 'Beti Bwt' Beti Rhiwlas yn ogystal roeddent wedi darparu gwahanol fwydydd i gyd fynd ar darlleniadau o'r llyfrau. Mwynhawyd y noson yn fawr.

Da ddydd Sadwrn y 9fed o Fai aeth nifer o'r aelodau i ŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol y Friars ym Mangor.

Wedi treulio y bore yn gwrando ar Dewi Ellis Jones a Llion Iwan cafwyd pryd o fwyd blasus yn y ffecur a chyfle i ymweld a stondin 'Tlws'. Treuliwyd y prynhawn yn gwrando ar 'Parti Enfys' dan hyfforddiant Leah Owen ac Ynyr Llwyd a gwledd i'r glust oedd gwrando arnynt. Ac i ddiweddu cafwyd sgwrs gan Berwyn Owen cyn ffarwelio

a phawb cyn troi am adre.

Daeth nifer o'r aelodau ynghyd i gyfarfod mis Mai dan lywyddiaeth Brenda. Anfonwyd cofion at Mrs Margaret Griffith Cyfni sydd wedi cael llawdriniaeth a gobeithio ei bod yn gwella. Roedd yn amser dewis swyddogion am y tymor nesaf 09-10 a bodlon iawn oedd y swyddogion presennol i ddal yn eu swyddi. Gofynnwyd i Margaret ac Eirian wneud trefniadau ar gyfer y trip i ddiweddu y tymor.

Cafwyd noson ddifyr iawn yn gwrando ar Ann Lloyd, un o'r aelodau, yn adrodd hanes ei thaith i Seland Newydd i ymweld a'i merch ar trulu sydd wedi ymfudo yno o Llanberis dair mlynedd yn ôl.

Diffyr iawn oedd gweld gwahanol ffordd o fyw ac fel mac y plant yn treulio eu hamser yn yr ysgol a dangosodd lynciau o'r wlad. Diolchwyd iddi gan Buddug. Y cyfarfod nesaf fydd y trip diwedd Tymor - dyddiad i'w benodi.



LLONGYFARCHIADAU i Catrin Llewelyn Gruffudd a Lois Regan a fu'n chwarae yn rownd derfynol Cynghrair Pêl-droed Genethod Gogledd Cymru dan 11 i ddim Llanrug yn erbyn Llangefni ar yr Oval.

yng Nghaernarfon. Er mai colli o 1-0 oedd y canlyniad, maent wedi cael tymor hynod lwyddiannus a hoffai'r genod ddiolch i Awen Gibbard am eu hyfforddi.

Lois Regan a Catrin Llewelyn Gruffudd ar yr Oval.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriol ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YR YSGOL GYNRADD. Dymunwn yn dda i Leisa Gwenllian, Blwyddyn 2, a Math Roberts, Blwyddyn 5, fydd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Bydd Leisa yn cystadlu ar y Llefaru unigol a Math yn cystadlu ar yr Unawd Telyn.

Bu cystadlu brwd yn Eisteddfod yr Urdd ar lefel cylch a sir, a rhaid llongyfarch pawb a gymrodd ran, boed hynny'n unigol neu yn rhan o grŵp. Cynrychiolwyd yr ysgol mewn cystadlaethau llefaru, canu, cerdd dant, ymgom a dawnio gwerin. Dymuna'r disgyblion ddiolch o galon i'w hyfforddwy.

Bu aelodau'r Urdd hefyd yn cystadlu mewn cystadlaethau Celf a Chrefft gyda Siôn Eifion Land, Blwyddyn 4, yn fuddugol yn genedlaethol ar y gystadleuaeth Ffotograffeg / Graffeg Cyfrifiadurol Bl.6 ac iau. Llongyfarchiadau iddo ac i bawb a gymerodd ran.

Llongyfarchiadau i Kieran Forrest, Blwyddyn 3, oedd yn bencampwr y gystadleuaeth

Traws Gwlad a gynhaliwyd yn Aberystwyth.

Cynhaliwyd taith gerdded nodedig ar noson braf ym mis Mai gan gychwyn o'r ysgol, draw tuag at Bryn Bras, i Gwm y glo ac yn ôl i'r ysgol. Diolch i bawb a gefnogodd.

Aeth y dosbarth meithrin ar daith i'r Fferm Gwningod yn Llanystumdwy.

Mae'r cyngor ysgol wedi derbyn logo newydd a gynlluniwyd gan Tyler Williams, Blwyddyn 5.

Ymwelodd Blwyddyn 5 â'r Archifdy yng Nghaernarfon yn ystod y mis.

Mae blynyddoedd 4, 5 a 6 wedi ymweld â'r warchodfa natur yng Nghonwy.

Llongyfarchiadau i'r timau merched a bechgyn a gymrodd ran yn y ddau dwrnament pêldroed a gynhaliwyd ym Mhorthmadog yn ddiweddar.

Mae Blwyddyn 2 wedi cychwyn ar gyfres o wersi nofio a gynhelir yng Nghaernarfon pob dydd Mawrth.

LLONGYFARCHIADAU i Al Mackintosh ar gwblhau

Marathon Llundain, ar ar hel swm o £1,400 i Dîm Achub Mynydd Llanberis. Mae Al yn briod â Menna (Pant Mwyn, gynt) ac yn dad i Efa Catrin ac maent yn byw yn Llundain. Pan yn dod i ymweld â'r teulu yn Llanrug bydd Al wrth ei fodd yn cerdded mynyddoedd Eryri.

MERCHED Y WAWR. Dydd Sadwrn, 9 Mai, aeth nifer dda o aelodau'r gangen i Ysgol Friars ym Mangor i fwynhau Mwyniant Mai, Gŵyl y Pum Rhanbarth. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan Einir Wyn, Rhiwlas, Llywydd y Pum Rhanbarth.

Cychwynwyd yr ŵyl gyda awr o ddatganiadau soniarus a hudolus ar wahanol fathau o glocenspiels gan y Dr Dewi Elis Jones. Bu'n olrhain hanes rhai o'r offerynnau a'u cyfansoddwyd a swynwyd ni oll gyda'r ddatganiadau.

Yna mwynhawyd paned a chyfle i gymdeithasu ac i weld a phrynu oddi ar stondin 'Tlws'.

Wedi'r toriad treuliwyd orig ddifyr yng nghwmni Llion Iwan yn rhannu'r profiadau a gafodd fel newyddiadurwr yng nghanol synnau'r gynnu, ac sydd bellach ar ddu a gwyn yn ei nofel newydd.

Fel yr arfer, mwynhaodd pawb y Bwffe yn y Ffreutur a'r neuadd.

Swynwyd y dyrfa o bron i dri chant gyda seiniau pur Parti Enfys dan hyfforddiant Leah Owen ac Ynyr Llwyd. Cafwyd citemau gan unawdwyr, deuawdau, triawdau a'r parti ei hun. Mwynhawyd llais unigryw mab Leah, Ynyr Llwyd, sy'n graddio mewn Cerddoriaeth yr haf hwn. I orffern y sesiwn sboreiddiwyd ni oll gydag anerchiad ddifyr Dr Berwyn Owen (Berwyn Pils), o Lanrug yn wreiddiol. Ei neges fawr oedd ar i ni ddarllen y pamffledyn yn ein bocs tabledi a chymryd y tabledi yn ddeddfol - nid eu gwastraffu.

Wedi'r diolchiadau a thynnu'r raffl ffarweliwyd gyda

phawb wedi mwynhau yr ŵyl yn fawr iawn.

Trip y Gangen. Aeth tua 30 ohonom i ymweld â Pherlysiau Llŷn. Tywyswyd ni o amgylch yr Ardd Berlysiau gan y perchennog a chafwyd gwybodaeth am feddyginiaeth yr amrywiol berlysiau.

Cawsom gyfle i ymweld â'r siop sy'n gwerthu cynnyrch wedi eu gwneud â llaw, megis sebonau glyserin a llysiau pur, di-arogl a heb liw wedi eu hychwanegu.

Prynodd rhai hufen moethus wedi ei greu â'r tintur puraf, olew a dŵr perlysiau. Os am faddon ymlaciol mae 'Bomiau Bath' o wahanol berlysiau ac olew organig yn esmwytho'r corff a'r enaid.

Ar gael hefyd i gyd-fynd â'r sebonau mae bagiau organig hefo rhosmari a halen môr i ddadflino neu i lanhau'r croen.

Cawsom sgwrs â'r meddyg llysieuol yn ei fferyllfa. Gweithia ochr yn ochr â thriniaethau arferol gan ganolbwyntio ar y claf. Caiff ffisig llysieuol ei baratoi, ran amlaf fel te, tintur neu eli. Cânt eu paratoi o blanhigion sy'n tyfu ar y fferm neu gan gwmnïau gyda safonau rheoli ansawdd a phrofi o'r radd flaenaf. Bu'n brofiad hynod o ddifyr a llesol.

Gorffennwyd y noson gyda Bwffe bendigedig yn Taro Deg, Pwllheli.

Diolchwyd i Myfanwy ac Ann Thomas am y trefniadau trylwyr ac am sicrhau trip gwerth chweil.

Atgoffir pawb y cynhelir Bore Coffi ar 5 Mehefin rhwng 10-12 y bore yng Nghanolfan Ebeneser er budd Y Pwyllgor Anabl.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Fawrth, 9 Mehefin yn y Sefydliad Coffa am 7.30 gyda Ffair Ategiolion - yr eitemau i'w gwerthu am £1 neu £2 a'r elw yn mynd tuag at y gangen ac elusen Cancr y Fron.



Menna ac Efa Catrin yn croesawu Al Mackintosh wedi iddo gwblhau Marathon Llundain.

ARVONIA




- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rihaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



J.M. JONES

a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

LLANRUG

Parhad

MR ROBERT HUGHES.

Dymuna Ann, Tecwyn a theulu y diweddar Mr Robert Hughes, Y Bwthyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (gynt o Ael y Garth, Caernarfon), ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt o golli priod, tad, taid a brawd annwyl iawn.

Diolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, llythyrau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanrug a Chronfa Mynwent Eglwys Llanddeiniolen.

Diolch yn arbennig i Dr Huw Gwilym, Waunfawr, am ei ofal o Robin ar hyd y misoedd diwethaf. I'r Parch Marcus Wyn Robinson am wasanaeth teimladwy ac i'r Parch Ron Williams am ei deyrnged i Robin.

Diolch hefyd i Dr W. Munro wrth yr organ ac i Dylan a Meinir Griffith, Penisarwaun, am drefniadau hynod o barchus a theimladwy. Bu yn gymorth a chysur mawr i ni fel teulu ar adeg anodd a thrist.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyd Clwb 100 mis Mai oedd: £20: Mrs M. Axon, 13 Hafan Elan; £7: Mrs J. Jones, Disgwylfa; £5: Mrs B. Roberts, Glanfa.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwenlli a Teleri, Macs y Bryn, Pontrug, ddiolch o galon i bawb am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac am yr anrhegion a dderbyniwyd ganddynt tra buont yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PROFEDIGAETHAU.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at y teuluoedd sydd mewn galar yn dilyn colli anwyliad.

Mrs Ann Hughes, Tecwyn a'r teulu oll, Y Bwthyn, Ffordd yr Orsaf, yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl,

Mr Robin Hughes;

Arwel a'r teulu, mab y ddiweddar Mrs Nansi Jones, Caernarfon, gynt o'r Bryngwyn. Mam, nain a ffrind i lawer yma yn Llanrug a Deiniolen.

Mr William Roberts a'r teulu, Glanffynnon, Ffordd Llanberis, yn eu profedigaeth hwythau yn coli Mrs Elizabeth Roberts.

Mr Eifion Jones, Prifathro Ysgol Brynrefail, Gareth a Siôn yn colli tad a thaid annwyl iddynt, sef Mr Hugh John Jones.

Rydym yn anfon ein cofion annwylaf at Mr Selwyn Roberts, Meifod a Bethan a Deian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn sef Mrs. Dwynwen Roberts, Llanberis. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyrfa â chwi yn eich colled.

LLONGYFARCHIADAU

i Claire yn Nant y Glyn ar enedigaeth bachgen bach. mae Nain Charlotte wedi gwirioni hefo Alfie ac mae o wedi derbyn croeso mawr gan y teulu cyfan.

Capel y Rhos

Cynhaliwyd oedfa fedydd fore Sul Mai 3ydd yng ngofal y Parch. Marcus Robinson ein gweinidog. Bedyddiwyd Ela Jên merch fach Elen a Paul o Gaernarfon. mae hi'n wyres fach i Carys a Leslie Parry, Gwynant Llanrug. Braf oedd cael croesawu nifer eraill o'r teulu i'r gwasanaeth.

Oedfaon mis Mchffin:

7 - Y Gweinidog

14 - Mrs Susan Williams

21 - Y Gweinidog

28 - Mrs Mair Penri.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU

RHOSTIO
MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Cyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON

LLANRUG

Y DYD CIG at 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

wefan: www.ydyncig.co.uk



GWIBDAITH I IWERDDON

Aeth aelodau Eglwys Sant Mihangel i Iwerddon ddiwedd Ebrill a dyma lun o rai o'r aelodau ar eu hymweliad â Glendalough, safle cynnar Cristnogol yn dyddio yn ôl i'r 11eg Ganrif.


CYMANFA'R ANNIBYNWYR

Bnawn Sul, cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Cwm y Glo a Deiniolen yn festri Capel Coch, Llanberis am 2.00 o'r gloch y pnawn. Llywyddwyd gan y Parchedig John Pritchard.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i Arweinydd y Gân, Gareth Jones, am y dewis bywiog o emynau ac i'r Band o fyfyrwyr talentog a ychwanegodd yn

fawr at y bywiogrwydd. Diolchir hefyd i'r ddwy organyddes, Bethan Holidng a Valmai Pritchard.

Llongyferchir y tair ysgol Sul Undebol ar eu gwaith clodwiw, sef Ysgol Sul Capel Coch, Ysgol Sul Ebeneser ac Ysgol Sul Bosra. Diolch eto i'r athrawon diflino ac i'r rhieni am eu hanogaeth a'u cefnogaeth.



GWYNANT
PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183

(0569) 899901

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

• Trwsio ceir a faniau

• Gwaith MOT

• Mecanic profiadol iawn

• Prisiau cystadleuol



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
GYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN

LLANRUG LL55 2RG

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

HYNAFWRAIG O FRI A FU. Ym mis Mai bu Farw'r unigolyn hynaf yn y pentref, cafodd ei geni a'i magu yn y bentref ac roedd yn byw yma o hyd, Roedd Mrs. Mary Henderson, neu 'Anti Mary' i bawb, Gorwel, 6 Erw Wen, yn 91 oed; bu farw yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Hi oedd yr unig unigolyn oedd yn bresennol ac yn cofio agor adeilad Capel Caeathro yn 1927, gyda'i henw yn yr adroddiad swyddogol. Colled fawr i'r teulu a chymuned.

MIRI HAF. Bydd Miri Haf eleni ar ddydd Sadwrn, 11 Gorffennaf 2009.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Mai oedd: £40: (88) Marcus a Bethan Liptrott, Y Glyn; £25: (90) Vernon ac Yvonne Jones, Y Gilfach; £15: (65) Cadwaladr Evans, Llecyn Clyd; £5: (52) Dave Jones, 1 Bryn y Gof.

MARWOLAETH. Yn ddiweddar bu farw Oliver Thomas, Llwyn Celyn, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

BETH SYDD MEWN ENW? Yn ei llyfr 'Enw Lleoedd Cymreig (1908) mae J. Mills yn cynnig ystyr arall i enw'r pentref. Dywedir 'diau mai athaw', sef distaw, llonydd, oedd yr enw gwreiddiol, ac yn briodol i'r rhai a hunant ym mynwent y lle. 'A lluoedd pobloedd pawb yn athaw'. Beth yw eich barn?

PEN-BLWYDD O BWYS. Llongyfarchiadau mawr i Bryn Griffith, Delfryn, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 mlwydd oed yn ystod mis Hydref.

GWELLHAD. Dymunwn wellhad llawn i Mary Henderson, Erw Wen, ac Ellen Bucke, Caeathro Bach, ar ôl iddynt dreulio amser yn yr ysbytai yn ddiweddar.

GWEINIDOG I GAEATHRO? Trwy bleidlais gudd adref, pleidleisiodd 86% o aelodau a

chyfeillion Capel Caeathro am eu dewis ynglŷn ag ymuno â gofalaeth Glannau Seiont neu Fro Padarn. Y canlyniad oedd o blaid ymuno â gofalaeth Glannau Seiont (Capel Cysegr, Bethel, a Capel y Rhos, Llanrug), Fel canlyniad bydd cyfarfod ffurfiol gyda'r Parchedig Marcus Robinson am 7.30 yr hwyr nos Iau, 4 Mehefin, yng Nghanolfan y Capel.

PEN-BLWYDD O BWYS. Gyda phen-blwydd Harriet Roberts ym mis Mai, bydd cwmni bysys Bws Padarn yn colli taliadau gan gwsmer cyson.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Mehefin:

7: 11.00 Ysgol Sul
2.00: Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli

14: 11.00 Ysgol Sul

21: 11.00 Ysgol Sul

2.00: Mr Bob Morris

28: 11.00 Ysgol Sul

Llywydd y mis yw Ifor Hughes (674342) ac Organyddes y mis yw Bethan Iwan.

CYNGOR CYMUNED. Roedd Cyfarfod Blynnyddol Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan y Capel ar 11 Mai yn enghraifft o ddemocratiaeth lleol. Roedd 11 o drigolion y pentref yn bresennol er mwyn lleisio eu barn yn erbyn penderfyniad blaenorol y Cyngor i gwtogi torri gwair y cae chwarae newydd o 11 toriad y flwyddyn i 5 toriad - heb arbed ceiniog o gyllideb y Cyngor. Yn y Cyfarfod wedyn penderfynodd y Cyngor wrthdroi'r penderfyniad blaenorol a throi yn ôl i 11 toriad y flwyddyn o dan reolaeth Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro.

Roedd yr heddwas lleol newydd, Zora Phillips, yn bresennol i glywed pryderon ynglŷn â cherbydau yn gor-yrru trwy'r pentref.

Gŵyl Ban Geltaidd 2009

Trefnodd Pwyllgor Cymru o'r Wyl Ban Geltaidd daith o Gymru i dref Donegal, Yr Iwerddon dros gyfnod y Pasg 2009. Cafwyd mwynhad ym mherfformiadau a chystadlaethau yr Wyl eleni eto, gyda'r safon ar ei uchaf fel arfer. Cynhaliwyd yr Wyl yng Ngwestai'r Central a'r Abbey yng nghanol tref Donegal. Yr un perchennog sydd i'r ddau westy yma a Gwesty'r Celt, Caernarfon.

Cafwyd noson agoriadol i'w chofio, gyda chynrychiolaeth amrywiol o'r gwledydd Celtaidd yn eu hieithoedd eu hunain yn ein diddori. Roedd cystadleuwyr o Gymru, Llydaw, Ynys Manaw, Yr Alban ac Iwerddon yn cystadlu ar y gân werin a grŵp o Gymru a ffurfiwyd ar fyr rybudd, sef 'Munud Olaf' ddaeth i'r brig.

Nos Iau, cynhaliwyd cystadleuaeth y Gân Ban Geltaidd. Cymru ddaeth i'r brig yma eto, gyda Elfed Morris o Fro'r Eco, athro ifanc o Ysgol John Bright, Llandudno, ynghyd â chefngrwp yn canu 'Gofidiau'. Daeth ef i'r gystadleuaeth hon trwy ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth 'Cân i Gymru' a ddarlledwyd ar S4C. Lowri Roberts o Ddeiniolen oedd yn gyfrifol am y geiriau. Beirniadwyd y gystadleuaeth yn Iwerddon yn annibynnol gan feirniaid o'r gwledydd Celtaidd. Anghofiwn ni mo'r wefr pan gyhoeddwyd y buddugol.

Nos Wener, cafwyd Noson Lawen dan ofal y Cymry gyda Emyr yn arwain, a blas da ar y canu, y dawnsio a'r offerynnau. Profwyd doniau Gwennan Gibbard a Dylan Cernyw ar y telynau - y ddau yn canu deuawd ar yr un delyn! Cyfeiriodd Tegwyn

Williams, trefnydd yr Wyl yng Nghymru, yn goffadwrus am nifer o gefnogwyr ffyddlon yr Wyl nad sydd bellach gyda ni, gan ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y blynnyddoedd. Ymlaen i benllanw'r cystadlu ar ddydd Sadwrn.

Bu cystadlu brwd. Pawb wedi blino ar ôl rhuthro o un rhagbrawf neu gystadleuaeth i'r llall. Braf oedd gweld corau ifanc o Gymru yn cystadlu ac yn ennill o fewn eu dosbarthiadau. Yn enwedig felly, Côr Aelwyd yr Ynys, Côr Aelwyd Rhuthun, Côr y Dref, Côr Cor'nwal, Hogiau'r Berfeddwlad, Côr Caerwys, Côr Merched y Cwm. Braf oedd gweld cynifer o ieuenctid yn ymddiddori ac yn frwd i ganu yn anffurfiol gyda'i gilydd ar sawl achlysur.

Bu cystadlu pellach yn yr Oriectas, sy'n cyfateb i'n Eisteddfod Genedlaethol ni. Llongyfarchiadau i bawb. Roedd Dylan Cernyw, Gwennan Gibbard a Ieuan am Siôn yn beirniadu mewn nifer o gystadlaethau. Bu'r dawnsywyr hefyd yn llwyddiannus - Tipyn o Bopeth a Dawnsywyr Caernarfon. Braf oedd gweld y dawnsywyr yn dawnsio yn gyhoeddus ar y strydoedd ac yn genhadon effeithiol dros Gymru. Diddorol oedd gweld yr amrywiaeth oedran a steil!

Wrth droi am adref, edrych ymlaen am fwy o frwdfrydedd am y flwyddyn i ddod ac i fwy eto o Gymry fentro i Dingle, Co Kerry i gystadlu y flwyddyn nesaf.

Cysylltwch ag E.W. Thomas o'r Tymbl: (01269) 843037, neu â Tegwyn Williams o Lanelwy: (01745) 583612

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

YSGOL BRYNREFAIL

Twrnament Cenedlaethol 7 yr ochr Yr Urdd

**Genethod Blwyddyn 7 a 8
Rownd Gyn-derfynol**
Brynrefail 1-0 Bryn Tawe
Mari Gibbard

Ffeinal
Brynrefail 0-0 Penweddig
Colli ar giciau o'r smotyn

Genethod Blwyddyn 9 a 10
Curo 1 gêm a colli 2 (3ydd yn
y grŵp)

**Bechgyn Blwyddyn 7 a 8
Rownd Go-Gynderfynol
(Q.F.)**
Brynrefail 0-0 Bro Ddyfi
Curo ar giciau o'r smotyn

Rownd Cynderfynol
Brynrefail 3-2 Eifionydd
Ian Darwood, Iolo Hughes (2)
(golden goal)

Ffeinal
Brynrefail 1-0 Glantaf
Iolo Hughes (golden gol)

**Bechgyn Blwyddyn 9 a 10
Rownd Co-Gynderfynol
(Q.F.)**
Brynrefail 5-0 Cowbridge
Sion Phillips, Aaron Gwyn,
Gerallt Jones, Tomos Emlyn,
Gruffydd John.

Rownd Gyn-derfynol
Brynrefail 2-0 Llanhari
Daniel Bell, Jamie Stevens.

Ffeinal
Brynrefail 2-0 Penweddig
Sion Kyle, Mathew Edwards.

**Cwpan Cymru Pêl-fasged
Bechgyn o dan 12**
Brynrefail 28-10 St Gerrards
Brynrefail 11-12 Y Berwyn
(Bala)

Bechgyn o dan 14
Brynrefail 30-8 St Gerrards
Brynrefail 8-6 Y Berwyn (Bala)
Brynrefail 34-22 Darland
Fe wnaeth y bechgyn o dan 14
guro y rownd gyn-derfynol yn
erbyn Fflint, ond colli oedd ei
hanes yn y ffeinal yn erbyn
Ysgol Gyfun Radur.

Bechgyn o dan 12
Brynrefail 28-10 St Gerrards
Brynrefail 11-12 Y Berwyn
(Bala)

Tocynau Cyfrifiaduron

Oe oes gan unrhyw un o'r
darllenwyr docynnau
cyfrifiaduron (Computers for
Schools) i'w rhannu hefo ni,
wnewch chi eu hantfon i'r ysgol
yn fuan, os gwelwch yn dda.
Pythefnos yn unig sydd ar ôl
i'w caoglu.

Diolch am eich cefnogaeth.

Cwpan Cymru Bechgyn o dan 16

Brynrefail 4-0 Dyffryn Nantlle
Gethin Maxwell (2), Richard
Cashman, Gwion Williams
Brynrefail 6 - 3 Llangefni
Richard Cashman, Jamie
McDaid, Ezra Warren (2),
Dyfan Coles, Iwan Price

Syr Thomas Jones 0-1
Brynrefail
Dyfan Coles

Ffeinal Eryri yn Ysgol Ardudwy

Ysgol Ardudwy 0-9 Brynrefail
Gwion Williams, Gethin
Maxwell, Ian Williams (2),
Richard Cashman (2), Louis
Williams, Ezra Warren, Jamie
Mcdaid

Brynrefail 3-2 Rhosnesni
(Wrecsam)
Daniel Bell, Dyfan Coles,
Gethin Maxwell

Afon Taf 0-5 Brynrefail
Daniel Bell, Dyfan Coles,
Richard Cashman, Jamie
McDaid, Gethin Maxwell.

Rownd gyn-derfynol
Denbigh 1-2 Brynrefail
(A.A.Y.)
Gethin Maxwell (2)

Gŵyl Rygbi Ysgolion Cynradd

Ar ddydd Mercher, 20fed o
Fai cynhalwyd Gŵyl Rygbi
Clwb Caernarfon ar gyfer
ysgolion cynradd
dalgyloedd uwchradd
Dyffryn Nantlle, Ysgol Syr
Huw Owen a Brynrefail.

Yn cynrychioli Bro'r Eco
oedd tim o ysgolion
Waunfawr, Llanrug a
Bethel. Yn eu herbyn roedd
timau o ysgolion Yr
Hendre, Y Gelli, Y
Bontnewydd a thim o
ysgolion Llandwrog,
Felinwnda a'r Groeslon.

O'r cyfnod 'pwl' bu'r
Waunfawr yn
fuddigolaethus ac ymlaen
i'r rownd gynderfynol. Yn
anffodus colli i'r Gelli fu eu
hanes, ac acth y Gelli
ymlaen i ennill y darian am
cicni.

Bydd sesiynau ymarfer
Adran Iaw Clwb Rygbi
Caernarfon ar gyfer
blynyddoedd 7-11 yn ail
ddechrau am 6:00yh, nos
Fawrth, 1 Medi. Sesiynau
blynyddoedd 12-14 yn ail-
dechrau am 6:00yh, nos
Wener 4 Medi - i gyd ar Y
Morfa, ger Ysgyty Eryri, yng
Nghaernarfon.

SEREMONI COFNOD CYRHAEDDIAD

Lluniau o'r seremoni Cofnod o Gyrhaeddiad blwyddyn 11 Ysgol
Brynrefail. (29/04/09) Pob lwc i flwyddyn 11 yn ei arholiadau.



LLANRUG - DDOE A HEDDIW



Map Degwm - tua 1840



Llun o ardal y map o'r awyr

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

YSGOL WAUNFAWR. Bu'n hanner tymor prysur a'r plant wedi mwynhau amrywiaeth o weithgareddau.

Noson Addysgol i'r Rhieni.

Cynhaliwyd noson addysgol i'r rhieni ar addysg rhyw a pherthnasedd diwedd Mawrth. Yn ystod y noson cafodd y rhieni gyfle i weld beth fyddai darpariaeth yr ysgol wrth gyflwyno'r agwedd yma i'r disgyblion. Cafwyd ymateb calonogol iawn i'r noson, a gwerthfawrogwn hyn.

Noson Blasu Bwyd.

Cynhaliwyd noson blasu bwyd ddiwedd mis Ebrill, gyda'r Gwasanaethau Masnachol yn paratoi sampl o bob dim sydd ar y fwydlen. Daeth cynrychiolaeth dda iawn o'r rhieni i gefnogi'r noson, a bu stondinau bwyta'n iach blwyddyn 6 yn llwyddiant mawr gan wneud dros £100 o elw.

Gweithdy Celf.

Gwahoddwyd blwyddyn 5 a 6 i'r Antur ddiwedd Mawrth i gymryd rhan mewn gweithdy celf gyda'r artist Tim Pugh. Diolchwn i'r Antur am ein cynnwys yn eu dathliadau pen-blwydd arbennig. Mwynhaodd y plant y sesiwn yn arw a bydd y peintiadau a wnaethant ar lechi yn cael eu harddangos yn yr ardd maes o law.

Plannu Llysiau yn yr ardd.

Bellach mae gennym 3 gwely llysiau yng nghae yr ysgol. Mae ein diolch yn fawr i Anna Williams, Ceri Loxton, Stephanie Meadows, Iwan Roberts a Mari Rowlands, y rhieni sydd wedi bod yn helpu'r plant.

Gwerthfawrogwn yn fawr gyfraniad unrhyw riant a all helpu yn yr ardd ar bnawn dydd Gwener.

Bagio Bagiau ym Morrisons.

Bu ymgyrch Fwyllgor Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn llwyddiannus iawn wrth fagio bagiau ym Morrisons cyn y Pasg. Gwnaed clw o £550.00. Diolch i bawb a gynorthwyodd, yn blant, rhieni a neiniau! Mae yr arian yma wedi mynd tuag at ddatblygiad yr iard fewnol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Bellach mae yno lwyfan perfformio, ffrâm wehyddu, wal ddwr a byrddau picnic, heb sôn am y tŷ bach, y blodau haul a'r llysiau.

Diolch i'r rhieni am eu sylwadau positif a'u gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed yn yr iard fach dros y saith mis diwethaf.

Gweithdai Techniquet.

Cafwyddau weithdy addysgol

yn ystod y tymor hwn. Gweithdy a sioe ar Rymoedd ar gyfer yr Adran Iau - a chafwyd gweithdy mathemateg Mama Mia ar Ffracsiynau i flwyddyn 5 a 6. Mae'r plant yn mwynhau'r sesiynau hyn yn arw, diolch i Ian a Rae am eu gwaith graenus.

Pêl-droed.

Cynhelir twrnament pêl-droed Ysgolion Eryri yn ddiweddar. Roedd naw ysgol yn cystadlu a daeth tîm yr ysgol yn drydydd. Da iawn chi, hogia! Pob lwc yn y twrnament rygbi yn ystod y mis hwn.

Sioe Hogia Bach. Cafodd yr Adran Iau sesiwn addysgol wych ar wahanol awduron a llyfrau darllen Cymraeg a Saesneg yn ddiweddar. Comisiynwyd y Sioe Hogia Bach gan yr Asiantaeth Sgiliau. Derbyniodd yr ysgol y sioe hon yn rhad ac am ddim am ein bod wedi ymrwymo ym mhrosiect Mil o Eiriau Asiantaeth Cymru.

Kerbcraft. Llwyddodd disgyblion blwyddyn 1 i dderbyn tystysgrif a gwobr am gwblhau cwrs diogelwch y ffyrdd, Kerbcraft. Hoffem ddiolch i Cheryl o'r Cyngor, Delyth mam Esyllt, Gwion a Mabon, a Ceri mam Mair a Rhona am gynorthwyo gyda'r hyfforddiant dros y flwyddyn. *Theatr Cwmni Frân Wen.* Bu'r Cwmni uchod yn cyflwyno drama i ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 cyn y Pasg. Teitl y ddrama oedd Martha Drafferthus a chafodd y disgyblion fwynhad mawr o'i gwyllo. Yn ystod mis Mai bydd y Cwmni yn perfformio sioe arall ar gyfer blwyddyn 5 a 6.

Dymunwn wyliau hapus i bawb.



DATHLU PEN-BLWYDD ARBENNIG. Dyna fu Mr Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, yn ei wneud yn ddiweddar. Llongyfarchiadau ichi ar gyrraedd eich pedwar ugain oed a phob dymuniad da i'r blynyddoedd i ddod.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill oedd: £30: Ms Sali Davies, Tŷ Capel, Croes y Waun; £20: Mrs Emsyl Jones, 15 Bro Waun; £10: Mr Neil Adcock, Glanaber.

YMDDEOLIAD. Dechrau mis Mai ymddeolodd Ifanwy Rhisiart, Bod Afon, o'i swydd yn yr Antur. Dymunwn ymddeoliad hapus iti, Ifanwy.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Dr Raymond a Laura Williams, Tros y Gors, ar ddod yn daid a nain y wŷr bach. Ganwyd mab

bychan, Tomos, i Karen a Gwyndaf, brawd bach i Megan. **DIOLCH.** Dymuna Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, cyfeillion a chymdogion am y cyfarchion a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed.

DYMUNO YN DDA. Mae'n dymor arholiadau pwysig ysgol a choleg unwaith eto a'n pobl ifanc yn eu canol. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt. Gobeithio y daw y tywydd braf ar eu diwedd er mwyn ichi gael ymollwng a mwynhau.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Menna MacDaid, Lloches, sydd yn derbyn triniaeth calon mewn ysbyty ym Manceinion.

Hyderwn yn fawr y byddwch yn gwella ac adre'n ôl yn ein mysg yn fuan.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Mrs Bridget Ryan, 5 Dôl Erddi, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar.



Gwasanaethau Garddio Gorwel

**01286 650761
07773 020424**

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Cwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Cofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

WAUNFAWR

Parhad

CYDYMDEIMLWN yn ddwys hefyd â Mrs Alma Jones a theulu Tan-y-Fron, yn eu profedigaeth o golli chwaer Alma.

DIOLCH. Dymuna Alma, Rob a'r teulu ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl.

DIOLCH. Dymuna Anne Thomas, Treforfan, ddiolch am y caredigrwydd tuag ati tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH i bwyllgor a gweithwyr yr Antur am brynhawn a gyda'r nos difyr iawn yn yr Wyl Fai a gynhaliwyd ar Mai yr ail.

DIOLCH i arweinwyr a Chôr y Waun am noson o gân a gynhaliwyd yn Galerï, Caernarfon, nos Sadwrn, 9 Mai.

Diolch a chanmoliaeth oedd gan bawb i'r ddau weithgaredd. **TIMAU PÊL-DROED IEUENCTID.**

Noson Diwedd Tymor. Nos Fercher, 18 Mehefin am 6.00 o'r gloch hyd at 8.00 y nos yng nghae'r Ganolfan bydd gemau pêl-droed i'r tri thîm pêl-droed (o dan 7, o dan 9 ac o dan 11 mlwydd oed). Gwobrau a gêm bêl-droed - rheolwyr hen yn erbyn rheolwyr newydd - wedi gwisgo fel Tylwyth Teg. Digon o hwyl a sbri i bawb!

Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Graham ar 01286 650052

Noson Blasu Bwyd

Ar 23/4/09 mi oedd yna noson flasus bwyd yn cymryd rhan yn neuadd Ysgol Waunfawr. Am 4.30pm roedd Bl.6 wrthi yn paratoi y bwyd ac am 5.30 fe gyrhaeddodd pawb. Roedd yna llond bwrdd o fwyd am ddim yno, roedd yna cibabs ffrwythau. Fy hoff fwyd i oedd y cheese cake a'r mefus a hufen. Rydw i yn meddwl fod y noson yn brofiad ardderchog i bawb gael trio bwydydd gwahanol.

Mi brynais i diced raffl ond enillais i ddim, mi aeth y gwobrau i fy ffrindiau, Gwion ac Iwan. Fe gasglom ni dros 100 o bunnoedd i'r ysgol Rydw i yn meddwl a ddyliwn ni gael noson blasus bwyd arall rhyw ddiwrnod. Cweithiodd Anti Luned ac Anti Sul yn galed iawn yn rhannu y bwyd allan. Ac roedd Anti Tracy a Pauline a'r raffl.

Diolch, gan ENLLI, Blwyddyn 5

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Reely

Marie, 4 Bryn Golau, ar lwyddo yn yr arholiad ffidil Gradd 3. Da iawn chi, daliwch ati.

DRINGO. Llongyfarchiadau i Gruffydd a Cai Rowlands, Tan y Marian, Waunfawr, ar gyrraedd rownd derfynol pencampwriaeth dringo Cymru. Trefnwyd y gystadleuaeth gan Gyngor Mynyddu Prydain a chynhaliwyd y rownd derfynol yng nghanolfan ddringo y Beacon ddiwedd mis Ebrill.

Roedd hanner cant o blant, o bob cwr o Gymru, wedi ennill lle yn y rownd derfynol Roedd y gystadleuaeth o safon uchel a'r dringo yn heriol dros ben. Roedd y ddau frawd wedi dringo yn arbennig o dda ac wedi ennill 4ydd a 5ed safle yn y gystadleuaeth. Da iawn chi.

BEDYDD. Bore Sul, 10 Mai, yn ystod y gwasanaeth yn Eglwys y Waun, bedyddiwyd Daniel Celt, mab bychan Dylan a Bethan, Ael y Bryn. Roedd ei ddwy chwaer, Erin ac Alaw, yn gwylio y gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards, yn gwasanaethu'r bedydd ac yn mynd â Daniel o amgylch y capel i'w gyflwyno i'r gynulleidfa, er bod y bychan yn cysgu'n sownd. Mrs Rhian Ellis oedd yr organyddes yn y gwasanaeth.

CROESO ADREF o'r ysbyty i Mr Tecwyn Evans, Tremallt, wedi iddo gael llawdriniaeth i'w law.

Noson Blasu Bwyd

Cawsom noson blasus bwyd yn yr ysgol ar 23 Ebrill, lle roedd rhieni disgyblion yr ysgol yn cael cyfle i flasus bwyd cinio eu plant yn yr ysgol. Hefyd mi roedd plant Bl.6 yn paratoi kebabs ffrwythau, smoothies a mefus mewn hufen i werthu i'r bobl. Daeth llawer iawn i bobl i'r noson ac mi roedd y neuadd yn hollol llawn a dwi'n siŵr eu bod nhw wedi cael llond eu boliau o fwyd. Gasglom ni £130 i gyd ar y noson ac wedyn mi roedd y pres i gyd yn mynd at drip ysgol Bl 5 a 6 i Gaerdydd! Cawsom ni i gyd hwyl ar y noson yn gwerthu, prynu a llenwi ein boliau efo bwyd, mi roedd yn CRET!

MEGAN ENLLI, Blwyddyn 6

Diwrnod Mewn Antur

Ar ddydd Iau, Ebrill 23, aeth Bl 5 a 6 i'r Antur i wneud gweithdy celf efo arlunydd o'r enw Tim Pugh. Mac Tim yn gwneud ei waith efo natur. Cawsom wneud patrymau ar gerrig efo ffelt tips, roedd yn hwyl. Aethom mewn partneriaid a mynd rownd Antur a chasglu pethau

naturiol, wedyn gwnaethom batrymau ar bapur. Ar yr un pryd roedd yna bobol yn ffilmio. Roeddwn yn teimlo'n gynhyrfus a chyffrous ar yr un pryd. Siaradais i ddweud beth roeddwn wedi'i wneud. Ar ôl i'r bobol fynd ar ôl ffilmio aethom nôl i'r ysgol i wneud gwaith BW! Roedd Antur yn fwy o hwyl.

MELERI, Blwyddyn 6

Twrnament Pêl-droed 6-bob-ochr

Ar ddydd Iau, Ebrill 30, es i, Dafydd M., Alex, Luke, Cian,

Tomos Sion a Tomos Parry i dwrnament pêl-droed pump bob ochr. Yn y gêm gyntaf yn erbyn Felinwnda, enillom ni 2-0 a collom ni yr ail gêm 2-0 yn erbyn Rhostryfan. A collom ni yn erbyn Gelli B, a'r Hendre a chyfartal yn erbyn Maesincla. Fe gurom ni yn erbyn Llandwrog 1-0. Wnaethom ni gyrraedd y semi-final a colli 3-0 yn erbyn Gelli B. Y gêm semi-final oedd y gêm orau. Wnes i fwynhau y twrnament llawer iawn.

TIM WILLIAMS, Blwyddyn 5



Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

*Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ*

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 - 6.30

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

SNOWDONIA PARK
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: (01286) 650218

LLANBERIS

parhad o dudalen 10

CAPEL COCH. Ysgol Sul: Cymerodd plant yr Ysgol Sul ran yng Nghymanfa Annibynwyr Dosbarth Cwm y glo a gynhaliwyd yn Capel Coch ddydd Sul, Mai 17. Cyflwynwyd eitem wedi ei seilio ar yr hanes am Atgyfodiad Iesu. Diolch yn fawr i'r plant am ddysgu eu gwaith a'i gyflwyno mor dda. Roedd y canu dan arweiniad Gareth Jones, i gyfeiliant organ a phiano, gitars a drymiau. Diolch i Gareth ac i'r cerddorion, Bethan Holding, Falmai Pritchard, Dafydd Lake, Gerwyn a Ceri Murray.

Cynhelir arholiad Cymanfa'r Presbyteriaid yn ystod yr Ysgol Sul, ddydd Sul, Mehefin 7. Bydd y Gymanfa yn Ebeneser, Deiniolen, y Sul canlynol, Mehefin 14, am 2 o'r gloch.

Gwefan: Ceir y wybodaeth ddiweddaraf am eglwysi'r Ofalaeth ar wefan yr Ofalaeth, sef gronyn.org.

Clwb Pysgod Mawr: Mae'r Clwb Pysgod Mawr yn cael ei gynnal yn Capel Coch am 6.45 o'r gloch ar nos Sul ar gyfer ieuenctid Blwyddyn 7-9 yr ysgol uwchradd, gan eglwysi'r pentref. Mae croeso cynnes i unrhyw un yn yr oedran hwn ymuno â ni. Yn ystod tymor yr haf mae sesiwn pêl-droed yn cael ei gynnal ar gyfer yr hogiau ar Gae'r Ddôl rhwng 6.30 a 7.00 o'r gloch, cyn y Clwb. Bydd yr hogiau felly yn ymuno â'r cyfarfod yn y capel ychydig yn hwyr.

CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch yn fawr iawn i'r casglyddion a fu'n ymweld â chartrefi'r pentref yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol i gasglu at waith yr elusen hon. Gwerthfawrogi eu hymroddiad a'u cefnogaeth. Diolch i bawb a gyfrannodd. Cyhocddir swm y casgliad yn y rhifyn nesaf.

CWIS CYMORTH. Cynhaliwyd Cwis Cymorth Cristnogol yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis, nos Wener, a chafwyd noson hwyllog. Diolch yn fawr iawn unwaith eto i bawb a ddacth yno i gymryd rhan yn yr hwyl wrth godi arian at yr elusen. Roedd pump o dimau'n cymryd rhan, ac roedd marciau pob tîm yn weddol agos at ei gilydd ar ddiwedd y cwis. Tim Andrew, Gwenno, Huw a Seiriol a enillodd. Llongyfarchiadau i'r pedwar.

Diolch yn fawr hefyd i

Dafydd Pritchard am lywio'r noson eleni eto, a holi'r cwestiynau. Yn ystod y noson, daeth y Parchg Jeff Williams, Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol yng Nghymru, a Branwen Niclas, Swyddog Cyfathrebu'r elusen, i'n gweld. Roedd yn braf cael eu cwmni, a diolch iddynt am ddod yng nghanol prysurdeb amlwg yr Wythnos hon. Roedd Jeff Williams yn ymweld â chymaint o ddigwyddiadau ag y gallai yn ystod ei ymweliad â'r gogledd. Cawsom anerchiad byr ganddo, a diolchodd i bawb oedd wedi dod yno, ac i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd at waith Wythnos Cymorth Cristnogol yn yr ardal unwaith eto. Gwnaed elw o £84.

Diolch yn arbennig, wrth gws, i Mr Aneurin Jones, Gwesty'r Dolbadarn, am gael cynnal y noson yno ac am y croeso cynnes a gawsom unwaith eto.

SONGS OF PRAIS. Recordiwyd dwy raglen ar gyfer cyfres *Songs of Praise* BBC1 yn Eglwys Sant Padarn ganol mis Mai. Caiff y gyntaf o'r ddwy raglen ei darlledu nos Sul, Mehefin 21

ECO'R WYDDFA

DRWY'R POST
I dderbyn y papur i'ch drws bob mis cysylltwch ag Olwen Hughes. Mae ei manylion cyswllt i'w cael ar dudalen 2

Ffrindiau Ysbyty Eryri

Mae gan hen dre Caernarfon le i ymfalchio yn y gwaith elusennol a wneir gan fudiadau gwirfoddol lleol - ac yn eu plith mae Ffrindiau Ysbyty Eryri, sydd eleni yn dathlu deugain mlynedd o wasanaeth clodwiw.

Ffurfiwyd y grŵp yn 1969, ond cyd-ddigwyddiad oedd hynny nad oedd a wnelo ddim â'r ffaith ei bod yn flwyddyn gyffrous pomp a rhwysg arwisgo'r Tywysog Charles fel Tywysog Cymru yn ogystal â'r protestio yn erbyn hynny.

Doedd y Ffrindiau ddim yn y busnes o dynnu sylw atynt eu hunain drwy'r penawdau newyddion, ond yn hytrach i wneud eu gorau er lles yr ysbyty a'r cleifion.

Dyna yw'r amcan o hyd, ac meddai Mrs Jane Eryl Jones, llywydd Ffrindiau Ysbyty Eryri, 'Y prif amcan ar hyd y blynyddoedd fu ac yw i godi arian i brynu offer ar gyfer ac er budd y cleifion.'

Llwyddwyd yn ystod y 40 mlynedd diwethaf i godi miloedd o bunnau, sef dros £54,500, i brynu amrywiaeth o offer defnyddiol ar gyfer triniaethau meddygol neu therapiwtig neu o fantais ar

gyfer nyrsio.

Bob prynhawn Sadwrn a Sul, cynigir gwasanaeth te neu goffi a lluniaeth ysgafn i ymwelwyr y cleifion, gwasanaeth a werthfawrogi yn fawr.

Gwneir swm sylweddol bob blwyddyn trwy gynnal bore coffi gyda byrddau gwerthu, a chodir arian trwy wahanol weithgareddau.

Daeth Ffrindiau Ysbyty Eryri hefyd yn sianel i roddion er cof am gleifion a fu farw yn yr ysbyty, yn ogystal ag arian gan gyn-gleifion a'u teuluoedd i ddiolch am y gofal tyner a gawsant yno.

Yn ogystal â Mrs Jane Eryl Jones fel llywydd, cadeirir pwyllgor Ffrindiau ysbyty Eryri gan Mrs Margaret Haines, a'r Is-gadeirydd, Mrs Mair Williams, gyda Mr John Arthur Jones fel trysorydd, Miss Enid Lewis Jones fel ysgrifennydd a Mrs Dorothy Pritchard a Mrs Olwen Peris Jones fel trefnwyr rota y gwasanaeth te.

Os dymuna unrhyw un helpu'r Ffrindiau mewn unrhyw fodd, cysyllter â'r ysgrifennydd ar 01286 672931.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A LLORIAU

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

(01286) 669090
Mobile-07894818783

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETH. Daeth y newydd trist fore Mawrth, Ebrill 28ain am ymadawiad Helen Maud Jones, 5 Trem Eilian, yn 64 mlwydd oed. Roedd wedi dioddef afiechyd blin yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a hynny gyda dewrder a sirioldeb. Bu ei theyrngarwch i'w phriod a'i phlant, ei hwyrion a'i hwyresau yn nodedig a byddant yn teimlo bwlch enfawr o golli cymeriad mor gareid a thriw.

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Arthur, Janet, Christine a Paul a'u teuluoedd a'r perthnasau oll yn eu profedigaeth. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Rhos, Llanrug gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

CROESO ADREF

Croeso mawr gartref i Amy Lambert, Glandwr a'i ffrind Lily o Lanberis ar ol bod yn teithio'r byd am gyfnod o wyth mis. Cawsant amser bendigedig a llawer o agoriad llygad. Bu iddynt ymweld a'r Amerig, Awstralia a Seland Newydd, Gwlad Thai, Malaysia a'r India. Cawsant groeso ymhob lleoliad a mwynhau llawer o anturiaethau fel teithio ar gefn eliffant, trio eu llaw ar dorri coed rwyber a thrip i lawr yr afon Ganges. Mae pawb yn falch eu bod gartref unwaith eto ac wrth eu bodd iddynt gael y cyfle i fwynhau profiadau mor arbennig ar eu teithiau.

SEFYDLIAD Y MERCHED

I gyfarfod nos Iau, Ebrill 16eg estynwyd gwahoddiad i Ceri Hughes, Swyddog Cymunedol Diogelwch Tan. Cafwyd sgwrs fuddiol ganddi ynghyd a fideo yn amlinellu'r camau cywir i'w cymryd i warchod ein cartrefi rhag tan a phwysleisio'r diofalwch yn aml sy'n arwain at hynny.

Nos Iau, Mai 21ain trafodwyd yr Argymhelliad a anfonir i Gyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched sef yr angen ar fyrder i ddiogelu y gwenyn yn ein gwlad. Gelwir am waith ymchwil ar frys i cdrych i mewn i ostyngiad niferoedd yr heidiau. Diweddiwyd y noson gyda chwist hwyliog gan Myfyr ac Eleri o Lanrug.

SUL CYMORTH CRISTNOGOL Yn yr oedfa nos Sul, Mai 10fed trefnwyd gwasanaeth arbennig mewn perthynas a gwaith Cymorth Cristnogol.

Cymerwyd at y rhannau

arweiniol gan Jennie Angharad Roberts.

Yn dilyn ymdrech Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2007 i apel Sierra Leone Cymorth Cristnogol fe godwyd chwarter miliwn o bunnoedd. I ddiolch i'r eglwys am eu haelioni paratowyd DVD, tra roedd Jeff Williams Ysgrifennydd Cyffredinol Cymorth Cristnogol ar ymweliad a'r wlad, i'w hanfon i bob eglwys. Gwyn Hefin Jones roddodd arweiniad i ddangosiad o'r DVD oedd yn egluro sut y defnyddiwyd yr arian i gynnal prosiectau tymor hir yn Sierra Leone. Arweiniwyd ymhellach mewn myfyrdod, darllen a gweddi gan lywydd y mis, Lowri Roberts Williams.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Caban nos Iau, Ebrill 16eg. Cadeirydd y noson oedd Dafydd Ellis, Gweledfa a dechreuwyd y noson gyda myfyrdod dan ei arweiniad.

Croesawyd pawb yn gynnes i gyfarfod cyntaf y tymor newydd, ynghyd a'r siaradwr gwadd, Arwel Jones, Penisarwaun. Dechreuodd Arwel drwy chwarae tap o lais gwrthrych ei sgwrs sef T.Rowland Hughes, 'y dewraf o'n hawduron' yn ol y bardd R.Williams Parry. Cafwyd ymdriniaeth feistrolgar o fywyd a gwaith y llenor a'r bardd a chyfoethogwyd y sgwrs yn fawr wrth i ni glywed trigolion yr ardal yn son am eu hatgofion ohono.

Nos Iau, Mai 7fed daeth yr arlunydd Frank Green i drafod ei waith fel arlunydd. Rhoddodd adroddiad diddorol am ei yrfa a'r dylanwadau ar ei waith i ddarlunio safleoedd sydd yn prysur ddiflannu yn arbennig fel rhai yn ninas Lerpwl. Gwyn Hefin Jones oedd cadeirydd y noson, yn arwain yn y myfyrdod a mynegi diolch gwresog i'r siaradwr gwadd am ei sgwrs ac am arddangos nifer helaeth o enghreifftiau o'i waith.

Bydd y cyfarfod ncsaf nos Iau, Mehefin 11eg pan roddir sgwrs gan Gareth Jones, Llanberis ar y tystun 'Tywysog y Tenoriaid' - David Lloyd.

**Cofiwch Gefnogi
Ein Holl
Hysbysebwyd**

DINORWIG

Miss Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

CYFARFOD PREGETHU.

Croesewir pawb yn gynnes i Wyl Bregethu'r Sulgwyn yn Sardis. Gwasanaethir am 2 o'r gloch gan yr Archddiacon Meurig Llwyd, Bangor, ac am 5.30 o'r gloch gan y Parchedig William John Lewis, Llanfairpwll.

CYMORTH CRISTNOGOL.

Diolch yn fawr i'r ardalwyr a gyfrannodd mor hael at Gymorth Cristnogol. Mae yr uchod yn buddsoddi yn yr hyn fydd o les am flynyddoedd. Mae yn helpu pobl i wella eu bywydau, waeth beth eu cefndir neu gred.

CLWB ORWIG. Mwynhaodd aelodau y Clwb uchod ginio i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghanolfan Blue Peris yn

ddiweddar.

Mewn cyfarfod yn ddiweddarach trefnwyd cystadleuaeth adnabod lluniau o leoedd adnabyddus yn yr ardal. John Cantrell a dynnodd y lluniau. Cafwyd llawer o fwynhad wrth geisio adnabod y gwahanol safleoedd a Joan Glass a lwyddodd i adnabod y nifer fwyaf. Rhoddwyd y te oedd John a Rose Cantrell.

Mewn cyfarfod arall a lywyddwyd gan John, dangoswyd ffilm o Ddinorwig yn dwyn y teitl 'Cynt ac wedyn' o waith Jason Jones. Margaret Faulkener a Betty Bower a roddodd y te bryd hynny ac enillwyd y raffl oedd Betty Ann Jones, Elizabeth Jones a Rose Cantrell.

BYSUS RHIWLAS


Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID

(01248) 674985

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Gwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf, wedi ei sefydlu i hywyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau reolenw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

**Caban
CYF**

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i Andrea Paterson a Tudur ar enedigaeth eu mab bychan, Gruffydd Pwyll - ŵyr cyntaf i Ann a Dave a gor-ŵyr i Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt. Pob bendith i chwi fel teulu.

Croeso mawr hefyd i Llew Gwydion, mab bychan arall i Rheon a Nerys, Afon Rhos, Llanrug, ŵyr arall i nain a taid, Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul.

Fore Sul, 17 Mai, ganwyd Elli Mai, merch fach i Mark Porter a Ffion, sy'n byw yn Grangetown, Caerdydd. Gyda llawenydd y llongyfarchwn Len a Carole ar ddod yn nain a thaid am yr eildro. Pob dymuniad da i chwithau fel teulu.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Dathlodd Dave Philips, Waun, ben-blwydd arbennig ar 27 Ebrill. Llongyfarchiadau Dave a phob dymuniad da.

Llongyfarchiadau i Elen Lewis, Penpwlloch, ar gyrraedd oed arbennig a phob dymuniad da ar ei hymddeoliad wedi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw yn y Clinig yn Llanberis. Mwynha dy ymddeoliad, Elen!

PROFEDIGAETH. Ein cydymdeimlad llwyrfa â Janet, Bryntirion, a'r teulu oll ar golli mam a nain addfwyn, scf Helen Maud, 5 Trem Eilian, Brynrefail.

DIOLCH. Dymuna Ann, 1 Llys y Gwynt, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion, cyd-weithwyr a chyn gyd-weithwyr am y llu cardiau, galwadau ffôn, anrhegion gwerthfawr a rhoddion ariannol. Diolch o galon am ben-blwydd bythgofiadwy.

DYMUNA Alwyn, Delyth a theulu'r ddiweddar Ellen Jane Williams (Nel), 2 Bryn Tirion, ddiolch i bawb a fu'n gofalu'n dyner amdani yn ei chartref yn ystod ei gwacled. Diolch arbennig i feddygon, nyrsys a staff Meddygfa Llanrug a Waunfawr am fod mor gydwybodol a diflino. Diolch i Mr Evie Wyn Jones, ac i'w ffrindiau a chymdogion a fu'n driw iddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gwerthfawrogi pob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd i ni yn ein profedigaeth o golli mam, nain a nain-nain. Ein diolch cywiraf i bawb symmroddu i'n nain a fu'n cynorthwyo ddydd yr angladd. Diolch i Roberts ac Owen, Penygroes, am drefniadau cwrtais a phroffesiynol.

Derbyniwyd dros £700 tuag at Ymchwil Cancr yn Ysbyty Glan Clwyd. Diolch o waelod calon i bawb.

YN EIN MEDDYLIAU O HYD

Ddydd ei hangladd mawr talwyd teyrngedau dwys a dwfn i Sharon gan brifathrawes Llanfachraeth a chan Rhian Price, ffrind agos iawn iddi ers dyddiau ysgol Tan-y-Coed. Diweddglo teyrnged Rhian oedd cerdd deimladwy i Sharon gan y Prifardd Meirion MacIntyre Huws. Do, 'Ebrill, 2009, sydd wedi ein sobri.'

SHARON

Mae'n wanwyn, maen nhw'n wyna; Yn yr haul mae tinc o'r ha', Ond i ni mae'n rhynllyd nawr, Yn union fel tae'n Ionawr; Ym Môn ac Arfon mae gwynt, A'n geiriau oll yn gorwynt. Mae rhwyg anferth drwy'r Perthi, Ry'm ar ddarod hebot ti.

Sharon ein joch o Sherry, - ein Sharon

Mor siŵr o'n diddori, Ebrill sydd wedi ein sobri; Mae'n dath heb dy gwmni di.

Sharon o'et galon i gyd; - ni welwyd 'Run Woolley mwy diwyd, Yn hafaidd byth a hefyd, Yn hel rhyw geriach o hyd.

Rhown bopeth o'n byd llethol, - rhown yr haf, Rhown yr haul boreuol I'th gael yma'n ein canol Efo ni adref yn ôl

MEIRION MACINTYRE HUWS
16.04.09

WOOLLEY, SHARON WYN

Dymuna Lionel Woolley, ei gŵr, a Dafydd a Helen, ei rhieni, ddatgan eu diolch diffuant i'r teulu, cymdogion, ffrindiau a chydweithwyr am yr ymweliadau, galwadau ffôn, llythyrau, cardiau, blodau a'r cyfraniadau tuag at Ambiwylans Awyr Cymru, er cof am Sharon.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, 21 Mehefin, yng Nghapel Scilo, Tregarth am 2.00 o'r gloch. Arweinydd y Cân fydd Arwel Davies (Arweinydd Côr y Penrhyn) a'r Organydd fydd Wyn Williams. Cymerir y rhan dechreuol gan blant Capel Bosra gyda'u stori dlos am Mari Jones. Bydd te Parti i ddilyn.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Mai a'r ddau enillydd lwcus oedd: Mrs Gwyneth Jones, Bryntirion a Iago Tomos, Tawelfa.

Llongyfarchwyd Cân Actol Aelodau'r Urdd a dymunir pob

lwc iddynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd.

Cynhelir Miri Mai nos Iau, 17 Mai, ceir yr hanes yn y rhifyn nesaf.

Cynhelir Ras Peli ar 16 Gorffennaf i lawr llethr iard yr ysgol. Bydd stondinau a phaned ar y noson, felly dowch i'n cefnogi fel arfer.

ARHOLIADAU. Dymunir pob lwc i bawb ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd yn braf cael ymlacio wedi'r gwaith caled.

DYMUNA Emyr a Katy ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar enedigaeth eu mab bychan, Gethin, brawd bach i Ioan ac Enlli.

LLWYDDIANT GYDA CHŴN DEFAID.

Llongyfarchiadau i Elwyn, Bryn Rhydd Mawr, ar ei lwyddiant gyda'i gi defaid yn Arwerthiant Cŵn Defaid Y Bala. Cafwyd y pris uchaf allan o 48 o gŵn ac erbyn hyn mae'r ci drudfawr i lawr yn y de.

Hwn oedd y seithfed tro i Elwyn lwyddo i gael y pris uchaf yn yr Arwerthiant. Mae llawer o'i gŵn wedi mynd dramor. Mae Arwerthiant y Bala, gan Arwerthwyr Rhuthun, yn cael ei chyfrif fel un o'r prif arwerthiannau. Mae nifer o ymwelwyr o dramor wedi galw yn Bryn Rhydd i weld y cŵn deallus yn gweithio gyda Elwyn. Llongyfarchiadau mawr i ti.

YR YSGOL GYMUNED.

Myfyriwr o'r Brifysgol. Croesawyd Miss Frank o Goleg Prifysgol Bangor i ddosbarth y Babanod am gyfnod o ymarfer dysgu. Roedd pawb wedi mwynhau ei chwmni a dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

Ymweliad. Daeth PC Neil Williams i ymweld â'r ysgol ddydd Mercher, 22 Ebrill, a dydd Mercher, 13 Mai, gan roi sgwrs i bob dosbarth yn eu tro. Taith Gerdded Addysgol. Dydd Mercher, 22 Ebrill, cafodd plant Bl. 3 a 4 gyfle i fynd ar daith gerdded ar hyd Llwybr y Mwynwyr, o Ben y

CRONFAR PENSIYNWYR. Enillydd mis Ebrill oedd Mrs Janet Jones, 12 Bryn Tirion. Llongyfarchiadau.

DYMUNA Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a gafodd ar ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed.



Pas tuag at Lyn Llydaw, yng nghwmni Mr Hywyn Williams o Barc Cenedlaethol Eryri. Treuliyd diwrnod diddorol iawn yn ei gwmni gan ddysgu llawer am yr Wyddfa a'i chriw. Diolch yn fawr i Mr Williams am baratoi mor drylwyr ar ein cyfer gan sicrhau bod pawb wedi cael taith hapus a diogel.

Gwersi Tennis. Dyna mae plant Bl 3, 4, 5 a 6 yn ei dderbyn bob bore dydd Iau yn ystod y tymor hwn. Cynhelir y twrnamaint eleni ar ddydd Mawrth, 9 Mehefin.

Pacio Bacgiau. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu rota i fynd i Morrisons Caernarfon ddydd Sul, 3 Mai. Bu'r criw bychan yn brysur iawn rhwng 10 a 2 o'r gloch yn pacio bagiau'r cwsmeriaid gan sicrhau elw o £326.58c i Gronfa Cyfeillion yr Ysgol. Diolch yn fawr i bawb am bob cefnogaeth.

parhad ar dudalen 15
Cyngerdd. Roedd nos Iau, 7



Mai, yn noson i'w chofio i bawb a ddaeth i Neuadd Ysgol Brynrefail Llanrug. Yno cynhaliwyd cyngerdd yng nghwmni Hogia'r Wyddfa, Elfed Morris, Côr Waunfawr a disgyblion Ysgol Penisarwaun. Cafwyd noson ddifys a hwyliog yn eu cwmni a mawr yw ein diolch i bawb am wirfoddoli i roi eu hamser yn rhad ac am ddim. Gwnaed elw o £735.

Ffair Mai. Trefnwyd y Ffair ar gyfer dydd Sadwrn, 9 Mai, gan Gyfeillion yr Ysgol. Roedd amryw o stondinau a gemau wedi eu trefnu gan blant Bl 5 a 6. Diolch i bawb a gefnogodd er mwyn sicrhau diwrnod hwyliog a llwyddiannus.

Ymweliad. Croesawyd Mr Andrew Setatree i'r ysgol fore dydd Llun, 11 Mai, a bu'n arwain y gwasanaeth torfol yn y bore. Diolchwn iddo am drefnu i ddod atom o dro i dro.

Profiad Gwaith. Treuliodd Marc Jones a Bryn Roberts o Ysgol Brynrefail wythnos o brofiad gwaith yn y gegin rhwng 18 a 22 Mai. Gobeithio eu bod wedi mwynhau'r priofiad.

Agoriad Swyddogol.

Derbyniodd plant Bl. 6 wahoddiad i fynd i agoriad swyddogol Canolfan Troseddol Caernarfon fore dydd Mercher, 20 Mai.

O SLAMBAR SELWYN

Yn aml iawn ar fore Sul wrth ddod adre o'r oedfa, mi fydd yna gêm bêl-droed ar y cae ger Capel Cysegr. Mi fydda i yn cael fy nhemtio i aros ac i wyllo, ond mynd am adre fydda i er mwyn cael cinio sydyn ac eistedd i lawr i fwynhau dwy gêm ar y teledu yn ystod y prynhawn.

Ia, yr hen bêl-droed 'ma. Tydi petha wedi newid? Yn hen Gronicl Capel Bethel a gyhoeddwyd yn rheolaidd yn ystod blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, mae gweinidog Bethel, Rhys J. Huws (sefydlydd Eisteddfodau Plant) yn datgan ei farn yn glir am ddylanwad y bêl-droed. Dyma ran o'i 'bregeth': 'Gan yr ymdrechir darparu moddion dyrchafol i'r bobol ifanc eleni, mawr hyderir na chychwynnir mo glwb pêl-droed yn y pentref. Apeliwr yn daer at aelodau crefyddol Bethel i ymwrthod â'r chwarae hwn, am y gwyddom ei fod yn darostwng moesau ac yn gerwino iaith ein pobol ifanc.'

Ym Medi 1904 yr ymddangosodd yr uchod. Wn i ddim beth fu ymateb hogia Bethel dros gyfnod y diwygiad

crefyddol, ond mi glywais i droedon am dîm enwog y 'Bethel Lions' a fu'n hynod o lwyddiannus ymhen ychydig flynyddoedd wedyn. Ydi, mae pethau wedi newid ac mae'n amlwg nad oedd R.J.H. Yn awyddus i gysylltu'r eglwys â chwaraeon.

Ys gwn i a wyddai o bod amryw o dimau pêl-droed enwog Lloegr wedi eu sefydlu o dan nawdd cymdeithasau crefyddol ac Ysgolion Sul, a hynny dim ond ychydig flynyddoedd cyn iddo fo apelio ar i bobol Bethel ymwrthod â chicio gwynt.

Crud Aston Villa oedd capel Wesla, a thua'r flwyddyn 1870 arferai bechgyn ifanc a oedd yn aelodau o'r capel hwnnw gicio pêl ar lawnt y capel ar ôl y gwasanaethau. Drwy ymdrech gŵr o'r enw George Ramsey, llwyddwyd i sicrhau cae chwarae am rent o £5, ac fe dderbyniwyd y swm o bum swllt a thair ceiniog wrth y giât yn eu gêm gyntaf.

Dyna Everton wedyn. Yn 1878, St Domino y gelwid y tîm am mai Ysgol Sul yr eglwys honno a sefydlodd y clwb. Wrth ymyl yr eglwys roedd Parc Stanley ac yno y chwaraeodd Everton eu gemau cyntaf. Symud wedyn i Priory Road gan dderbyn tri swllt ar ddeg wrth y giât yn eu gêm gyntaf. Coeliwch neu beidio, bu Everton wedyn yn chwarae yn Anfield am gyfnod cyn setlo yn Goodison Park yn 1892. Ac fe lwyddon nhw yn y flwyddyn honno i gyrraedd y gêm derfynol am Gwpan Lloegr. Ydyn, mae nhw yn y ffeinal eleni hefyd a phob lwc iddyn nhw diwedd y mis yma.

Mae Fulham sy'n chwarae ar lan y Tafwys, yn Craven Cottage, yn dîm a hanes diddorol iddo. Yn y 'cottage' hwn, a fu'n ystafell wisgo i'r tîm, yr ysgrifennodd Bulwer Lytton 'The Last Days of Pompeii' yn 1834. Ysgol Sul St Andrews oedd crud tîm Fulham, pryd y gwelir yr aelodau yn ymgynnull ar brynghawn Sul hefo Beibl yn un llaw a phêl yn y llaw arall.

Adwaenir tîm Southampton fel 'Y Saint', ac fe sefydlwyd y tîm hwn hefyd o dan nawdd cymdeithas pobl ifanc eglwys St Mair, sef eglwys blwyf Southampton. O ddarllen cofnodion cynnar y clwb fe welwn gyfeiriad at fel Southampton St Mary's, ac arwyddocaol iawn ydi sylweddoli mai Cadeirydd cyntaf y clwb oedd yr Archddiacon Wilberforce.

O dan arweiniad y Parchedig Gordon Young y

ffurfiwyd clwb enwog arall o Lundain, sef Queen's Park Rangers, a gweinidog arall o'r enw Wiliam Pitt a sefydlodd glwb Swindon Town yn 1881. Roedd yna un chwaraewr o safon, sef Harold Fleming yn nhîm Swindon ac fe enillodd o naw cap i Loegr. Roedd o hefyd yn bregethwr cynorthwyol a gwrthodai yn bendant â chwarae ar ddydd Nadolig a dydd Gwener y Groglith.

Mae'n bur debyg y byddai Rhys J. Huws yn gefnogol iawn i safbwynt Harold Fleming. Ac wrth basio heibio i faes pêl-droed Bethel y Sul diwetha, a gweld y plant yn mwynhau eu hunain, fedrwn i ddim llai na dychmygu gweld Rhys J. Huws yn brasgamu o'r oedfa fore Sul ym Methel i wyllo'r plant ac i'w cefnogi ar Gae Coed Bolyn. Mi fydda fo hefyd yn sicr o hel ei bac a theithio i Gaerdydd i Brifwyl yr Urdd. Onid fo oedd sefydlydd Eisteddfod y Plant?

Oedd, roedd Rhys J. Huws yn deall plant ac mi fydda fo heddiw yr un mor frwdfrydig ar y Maes Chwarae ag y byddai o ar Fes yr Eisteddfod, dwi'n siŵr.

Onid fo ddywedodd, 'Mae direidi plentyn mor naturiol â duwioldeb sant.'

Cynllun Efe

Mae gwaith Cynllun Efe yn mynd yn ei flaen dan arweiniad ein gweithiwr ieuencid, Andrew Settatee.

Ar hyn o bryd, mae Andrew yn un o arweinyddion y Clwb Pysgod Mawr yn Llanberis ar nos Sul. Mae hefyd newydd ddechrau cyfarfod ar gyfer ieuencid dros 14 oed ym Methel. Mae'n ymweld yn rheolaidd â nifer o ysgolion cynradd y dalgylch, lle mae'n cynnal gwasanaethau ac yn cyfrannu at ambell wers.

Ddiwedd mis Ebrill, aeth Andrew gyda chriw o blant o Lanberis a Llanrug am benwythnos yng Ngholeg y Bala, lle cafodd y plant amser da mewn cwrs dan arweiniad Mrs Nia Williams, Pwllheli.

Mae gwefan newydd Cynllun Efe wedi ei chreu erbyn hyn, a bydd yn cael ei datblygu ymhellach dros yr wythnosau nesaf. Gellir dod o hyd i'r wefan trwy fynd i cynllunefe.org

Mac'r cyfarfodydd gweddi misol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yn nhŷ Andrew, yn Cwellyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, a byddwn yn falch iawn o gael cwmni unrhyw un sy'n dymuno dod atom i weddio dros y gwaith pwysig a chyffrous hwn. Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Mehefin 3.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ALL700

AGE
Concern

Os byddwch yn cyfylltu a swyddu Age Concern, byddwch yn ymneud a chynhyrchydd penodig o Age Concern Enterprises Limited (ACER). Mae ACER wedi ei swydduodi a'i rheoli gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfnglad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gytrefstradeg.

AGE/44WST/01/0178

Dylan Griffith

Trefnuwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys:
PENISARWAUN - DEINIOLLEN - LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys)

ar 871833

Dymuniad 07778127374

Gwaith Corrig Beddi

Gwasanaeth Tsimledwy
Urddanol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Goffrys Preifft

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cythaeddwyd Mewn Steil - Mewn Cerbyd Rolls Royce
AN GYFER TRIDASAU, PENLWYDDI AG AGHLYSUN ANDEINIG ENAILL

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Rol Williams, Waunfawr, oedd y gŵr gwadd y mis yma ac roedd nifer dda o aelodau wedi ymgynnull i wrando ar ei sgwrs. Cyflwynwyd ef gan yr Is-Lywydd, y Prifardd Selwyn Griffiths, ac wrth groesawu pawb anfonwyd cofion at Goronwy Jones. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo wrth iddo hel atgofion am droeon trwstan, ac fel arall, a chyfeiriwyd at nifer o'i gyfeillion ym myd nosweithiau llawen ac yn y blaen. Diolchwyd iddo ar ran yr aelodau gan Jenkin Griffiths, a diolch hefyd i'r holl ferched sydd wedi paratoi'r baned a'r bisgedi blasus dros y flwyddyn. **MERCHED Y WAWR.** Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai fel arfer yn Festri Cysegr gyda Mair Price yn llywyddu. Darllenwyd lythyr oddi wrth Ysgrifennydd Pwyllgor yr Anabl yn diolch am y gefnogaeth i'r Tawelwch Noddedig a hysbyswyd pawb am y Ffair Haf sydd i'w chynnal fore Gwener, Mehefin 5ed, yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon.

Llongyfarchwyd Anne Elis ar gyrraedd oed arbennig yn ddiweddar, ac hefyd Dewi, mab Glenys Griffiths, am ennill tarian am yr unawdydd gorau fel aelod o Fand Tref Tredegar yng nghystadlaethau y Grand Shield yn Blackpool.

Cyfeiriodd y Llywydd mai braf oedd gweld dau o ieuencid yr ardal ar y raglen *Wedi 7* yn cael cyfweiliad fel rhan o ddathliad Antur Waunfawr yn 25 oed, sef Dafydd Emrys, mab Mair Read, ac Iwan Morris, mab Edwina Morris.

Pasiwyd i gyflwyno cofnod o weithgareddau ac aelodaeth y gangen am eleni, a'i roi yn y capsawl sydd i'w gladdu yn y Bala ym mis Awst. Etholwyd swyddogion yn ddidrafferth am y tymor nesaf, sef: Llywydd - Mair Read; Is-lywydd - Rhian Hughes; Ysgrifennydd - Glenys Griffiths; Is-ysgrifennydd - Margaret Druce; Trysorydd - Gwyneth Jones; Is-drysorydd - Edwina Morris, gyda'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor - Nora Parry, Lynnwen Morris, Eirlys

Williams, Delyth Williams, Anne Elis a Dilys Perez.

I gloi gweithgareddau am eleni bydd yr aelodau yn ymweld â Chanolfan Dreftadaeth Cae'r Gors ac yna bwyd i ddilyn yn Y Stables, Llanwnda. Bws yn cychwyn o'r Cysegr am 6.30.

Y wraig wâdd oedd Carol Gerecke, arbennigwraig ar blanhigion, sydd yn gweithio yng Nghanolfan Arddio Seiont. Roedd hi wedi dod â nifer fawr o amrywiol blanhigion i'w harddangos a bu'n sgwrsio'n ddifyr iawn gyda chynghorion gwerthfawr ar sut i ofalu amdanynt. Roedd ei harbenigedd hi'n amlwg i bawb wrth iddi ateb cwestiynau o'r llawr.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddi am noson gartrefol braf gan Eirlys Williams.

LLONGYFARCHIADAU i Gwynfor a Hayley ar enedigaeth Deian Hedd ar 22 Ebrill, a llongyfarchiadau mawr i Dafydd ac Olwen, Tan y Buarth, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf.

NEUADD GOFFA BETHEL. Enillwyr Clwb 200 mis Ionawr 2009 oedd: £40: (56) Eifion a Bethan Jones, Glaslyn, Bethel; £20: (21) Janet Owen, 12, Stad Eryri, Bethel; £10: (157) Anita Owen, Tŷ'r Ysgol, Bethel.

Enillwyr Chwefror oedd: £40: (134) Clare Jones, Maes y Dderwen, Bethel; £20: (111) Susan Owen, Llys Gwynedd, Bethel; £10: (87) Mair Jones, 12 Tan y Cae, Bethel.

Enillwyr Mawrth oedd: £40: (16) M. Bardsley, 3 Stad Eryri, Bethel; £20: (11) Gwilym Williams, 20 Y Ddôl, Bethel; £10: (124) Margaret Eckley, Gerddi, Bethel.

TRIP YSGOL SUL CYSEGR. Mae Ysgol Sul Y Cysegr yn trefnu trip i Dŷ Mawr, Wybrnant, ddydd Sul Gorffennaf 5ed ac mae croeso i oedolion ddod ar y trip hefyd os bydd lle yn y bws. Dylai oedolion sydd â diddordeb roi eu henwau i un o athrawon yr Ysgol Sul cyn 31 Mai. Bydd llythyr hefo manylion y trip yn cael ei rannu i'r plant yn yr ysgol Sul ddydd Sul, 31 Mai. **HOFFAI** Dilwyn Thorman ddiolch i'w dculu a'i ffrindiau am ei gefnogi a'i nodd i redeg

Marathon Llundain er budd Cancr y Fron. Casglwyd oddeutu £6,000 i'r elusen. Diolch yn fawr iawn i bawb. **OEDFAON MEHEFIN**

7: 5.30: Parch W. R. Williams, Y Felinheli

14: 2.00: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel

21: 5.30: Mr Dafydd Iwan, Caeathro

28: 5.30: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

LLONGYFARCHIADAU Cafodd Gerallt Bryn Jones o Fethel ei ddewis i garfan dan 16 oed pêl-fasged Cymru. Ar ôl cael treialon yn y Gogledd fis Mawrth, cafodd wahoddiad i'r treialon cenedlaethol yng Nghaerdydd ddechrau Mai, a bu'n llwyddiannus. Mae'n

ymddiddori yn y gamp ers ei ddyddiau cynnar. Mae'n aelod o glwb pêl-fasged Celts Caergybi, ac yn ymarfer yn rheolaidd bob nos Wener. Mae hefyd yn aelod o dim llwyddiannus Ysgol Brynrefail a gipiodd sawl tlws dros y blynyddoedd.

Dros y misoedd nesaf bydd Gerallt yn dod i adnabod yr A470 ar sawl penwythnos ar gyfer ymarferiadau cenedlaethol. Eu

gwrthwynebwyr cyntaf fydd Lloegr ar Fehefin 20ed. ac yna Iwerddon yn Nulyn y mis canlynol.

Hoffai Gerallt gydnabod cyfraniad Phil Holland a Tony Roberts o glwb Caergybi am eu cefnogaeth parod i'w ddatblygiad yn y gamp. Dymunwn yn dda iddo.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CYDYMDEIMLAD.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Stephen, Julie, Lloyd, Liam a Lea, 23 Dôl Afon, yn eu profedigaeth lem o golli tad a thaid annwyl yn frawychus o sydyn yn Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Ffion Haf Roberts, 22 Dôl Afon, ar ei llwyddiant yn yr arholiad Gradd 2 gyda Cornet a hynny gydag anrhydedd. Da iawn, Ffion.

CYMANFA YR ANNIBYNWYR. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yn Festri Capel Coch, Llanberis, a hyfryd oedd gweld y festri yn llawn. Arweinydd y gân oedd Gareth Jones, gyda Bethan Holding wrth yr organ a Falmi Pritchard wrth y piano. Cymcrodd plant ysgolion Sul Capel Coch, Ebeneser a Bosra ran a diolch i athrawon yr

ysgolion Sul am hyfforddi'r plant ac i'r plant am waith graenus a chlodwiw. Diolch i Gareth am drefnu'r 'Band', sef tri o fechgyn ifanc o Flaenau Ffestiniog a ddaeth atom. Diolchodd y Parchedig John Pritchard i bawb am eu rhan i wneud y Gymanfa mor llwyddiannus eto eleni.



ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

33 Stryd Fawr, PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043, neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ain gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m. - 7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m. - 3 p.m. (Sul)

Tegid a Samantha Pritchard
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwar o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

CHWILOTA

DOCTOR DAIL NANT PERIS



Yn rhifyn diwethaf yr 'Eco' soniais am y cwest yng Nghapel Curig i farwolaeth ffermwr lleol, ac fel y cafwyd tystiolaeth gan chwaer yr ymadawedig ynglŷn â photel o feddyginiaeth a gafodd ei brawd tuag at boenau'n ei stumog flwyddyn cyn ei farw. Y gŵr a roes y botel honno iddo oedd Mr Lloyd Williams, Nant Peris 'who is not a registered medical man.'

Fel y daeth yr 'Eco' o'r wasg bron, daeth galwad ffôn gan Mr G. Roberts, Cerrig y Drudion, Nant Peris, yn fy nghyfeirio at gyfrifiad 1891. Yno, mae cofnod o Richard Lloyd Williams, Cae Gwyn, Nant Peris, sy'n disgrifio'i hun fel 'medical assistant'. Mae'n byw yno gyda'i fam, Ellen Lloyd Williams, gwraig weddw, 67 mlwydd oed. Cafodd y ddau eu geni o fewn plwyf Llanberis.

O astudio'r cyfrifiadau cynharach, down i wybod mai teulu rheithor Nant Peris oedd y rhain. Yn 1861 mae Cae Gwyn yn cael ei ddisgrifio fel 'Rectory'. Yno, mae William Lloyd Williams, rheithor Nant Peris yn byw gyda'i deulu. Ganed y rheithor ym Miwmares, ond gweddill y teulu ym mhlwyf Llanberis, sef Ellen, ei wraig, sydd bymtheng mlynedd yn icuengach nag ef, a'r plant, Robert (15 oed), William (14 oed), Richard (12 oed), John (5 oed) a Thomas (3 oed). Yno hefyd yn forwyn i'r teulu roedd Ann Ellis. Ond yr oedd dau fachgen arall yn aros yn y rheithordy yng Nghae Gwyn hefyd, ac y maent hwy yn dipyn o ddirgelwch. Pwy tybed oedd Robert ac Edmund Nott (14 a 10 oed) sy'n cael eu disgrifio fel 'British subjects' ond wedi eu geni yn yr India?

A fu'r rheithor yn genhadwr rywdro? A oedd cysylltiad teuluol gyda'r bechgyn hyn o India? A oedd y bechgyn wedi eu hanfon yno gan elusen eglwysig i gael llety dros dro? Mae angen cryn dipyn o waith ymchwil i ddarganfod hanes y bechgyn hyn a'u cysylltiadau â Nant Peris - os nad oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod!

Erbyn 1871 mae'r mab hynaf, William yn disgrifio'i hun fel 'civil engineer', ac y mae merch, Margaret, yn rhan o'r teulu bellach.

Rywdro yn ystod y deng mlynedd nesaf bu farw'r rheithor, ac yn 1881 mae Ellen yn disgrifio'i hun fel 'widow of the late rector'. Mae William erbyn hyn yn 'architect' yn ogystal â 'civil engineer'; Richard yn 'medical assistant' a John yn 'accountant'. Roedd y tri mab yn ddibriod, ac yn byw gartref gyda'i mam; ond ble tybed roeddent yn ymarfer eu proffesiwn?

O fewn y deng mlynedd nesaf, priododd William â Mary o gyffiniau Cricieth neu Lanystumdwy, ac yn 1891 mae'n disgrifio'i hun fel 'civil engineer and land agent'. Mae John, yr 'accountant' erbyn hyn wedi gadael cartref, ond mae Richard yn parhau yno.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yng nghyfrifiad 1901 dim ond Ellen a'i mab Richard sy'n byw yng Nghae Gwyn, er fod gweision yn parhau yno. Mae Richard erbyn hyn yn 'medical practitioner'. Bellach, mae ei frawd, William a'i deulu yn byw yn Tŷ Gwyn, ac er ei fod yn parhau i ddisgrifio'i hun fel 'civil engineer' mae hefyd yn ffermwr.

Byddai'n ddiddorol cael

gwybod ble derbyniodd y bechgyn hyn eu haddysg, a pham mai yn ôl i'r Nant y daethant i ddilyn eu gwahanol alwedigaethau. Os oes unrhyw un yn gwybod mwy am hanes y teulu, cysylltwch ar fyrder.

Medal Owen Davies

Un arall a gysylltodd yn fuan wedi i'r rhifyn diwethaf ddod o'r wasg oedd Mrs Mair Williams, Cwm y Glo. Roedd ganddi hithau gysylltiadau teuluol, gan fod Owen Davies a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn ewythr iddi. Anfonodd hefyd lun o'r gŵr ifanc a gladdwyd ym Mynwent Filwrol Adinkerke, Furnes, yn agos i Dixmude, ac o'r fynwent. Gyda'r rhain anfonodd fedal Owen Davies, ond mae'n ymddangos mai medal gwasanaeth milwrol yw hon, ac nid y fedal a soniwyd amdani y mis diwethaf.

Mae'r fedal a anfonwyd i Glawdd Llwyd, Tan y Coed, wedi diflannu. Ar honno roedd enw'r ymadawedig a'r geiriau 'He died for freedom and honour' wedi eu cerfio o'i hamgylch.



Dwy ar hugain oed oedd Owen Davies pan laddwyd ef mewn brwydr ar y nawfed o Awst 1917. Mae wedi ei goffau ar wal y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Colofn fer y mis hwn, ond gyda diolch arbennig i'r ddau a gysylltodd mor fuan ynglŷn ag eitemau yn y rhifyn diwethaf.

Cofiwch, os oes gennych unrhyw wybodaeth neu unrhyw ymholiad ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes y fro, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286

672076 i wneud apwyntiad neu

ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell,
Caernarfon, LL55 1SE

neu

ebost:williamsgw@parliament.uk

AUDI

SEAT

PORSCHE

VOLKSWAGEN

SKODA

BMW

PEUGEOT

FIAT

DIESEL

PETROL

CHWISTRELLIAD

ARBENIGWYR

MEWINFORIO

YR ALMAEN

SWEDEN

UNIONI OLWYNION

CAM BELTS

TRIPDANOL



BOSCH

i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*

Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr

* Gyda rhai amodau



HELIX



MOT



ATA

Trwsio cerbydau a gwarethu partiâu sbâr
Lle da y gallwch ei fforddio

Stâd Ciblyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 WWW.AVW.CO.UK

AVW

Gwasanaeth i'ch Car

AIR CON

GWASANAETH

BATRIS

VOLVO

MERCEDES

SAAB

O'R CYNGHORAU...

LLANDDEINIOLEN

Materion o'r cofnodion. Ateb Gwynedd:-

1. eu bod wedi gweithredu ar y draen wrth ochr ffordd Pen y Bont ond am ei asesu eto;
2. angen union leoliad y draen ger Chwael Fawr, Dinorwig;
3. bod bwriad i ail-wynebu'r ffordd o Ddeiniolen at yr Allt Ddu, Dinorwig eleni.

Derbyniwyd diolch Prifathro ysgol Penisa'rwaun am y rhodd at y daith i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

Torri coed wrth ochr ffyrdd - ateb Gwynedd yn dweud bod eu ymgymerwyr yn broffesiynol a bod eu gwaith yn dderbyniol a thacius.

Llwybrau Diogel i'r Ysgol - cadarnhad Gwynedd y gwneir llwybr diogel o ysgol Gwaun Gynfi i gyfeiriad Pen y Golwg yn ogystal ag i'r cyfeiriad arall. Safle ail-gylchu Rhiwlas - ymddiheuriad Gwynedd nad yw'r gwaith tacluso wedi ei wneud.

Dymchwel waliau, Cae'r Gof, Rhiwlas - ateb Gwynedd nad oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer hyn ond bod ein llythyr wedi ei ddanfôn ymlaen i'r Uned Bro er mwyn iddynt edrych i mewn i'r mater o dan y rheoliadau cadwraeth perthnasol.

Toiled Deiniolen - ateb Gwynedd mai £500 y flwyddyn fuasai eu cyfraniad i fusnesau am ddefnyddio eu toiledau gan y cyhoedd.

Caeau chwarae Penisa'rwaun a Chlwt y Bont. Ateb Gwynedd mai dim ond un person sy'n ymddiriedolwr i gae chwarae Clwt y Bont. Penderfynwyd ymholi ym mhellach a oes ymddiriedolwr i gae chwarae Penisa'rwaun.

Coed Blaen y Cae. Mae'n debyg bod gwaith wedi ei ddechrau ar y safle er bod yr amod cynllunio yn dweud bod y gwaith addasu ffyrdd i'w orffen cyn dechrau'r gwaith -

llythyr i'r Adran Gynllunio.

Gohebiaethu a materion eraill

Baw Cŵn - dywedodd Hefin Williams bod angen danfon cais arbennig i Wynedd am finiau yn Carreg y Gath ac wrth ochr y ffordd at y cae chwarae.

Cyflwr ffyrdd:

1. dywedodd Pat Jones bod wyneb ffordd Cytir, heibio i Trem Eilian, yn ddifrifol.
2. a Gwilym Williams bod tyllau yn y ffordd dros y bont yng nghanol Clwt y Bont.

Adroddiad Mrs Rhian Jones, Brynrefail. Dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu â Gwynedd, ar gais Pat Jones, ynglŷn â'r un pwynt ar ddeg yn ei llythyr. Adroddir yn ôl i'r Cyngor ac i Mrs Rhian Jones pan fydd atebion i law.

Ffyrdd - dywedodd Gwilym Williams bod angen torri coeden ym mynedfa tai 'Preswylfa', Clwt y Bont - llythyr i Wynedd.

Llwybrau

Danfônwyd ymlaen i Wynedd sylw Cyngor Llanberis bod gwaelod llwybr Zig Zag yn beryglus.

Llwybr Gorlan, Clwt y Bont. Mae ieuencid wedi sigo coed a'u plygu i lawr dros y llwybr ger y pontydd a mae poteli gwydr wedi eu torri ar hyd y llwybr - llythyr i'r Heddlu.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yr 2il o Fehefin.

LLANBERIS

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau y 23ain o Ebrill yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Ymweliad yr Heddwes

Cyfarfod i dderbyn adroddiad o waith yr Heddlu lleol gan yr Heddwes Michael Couling, ac i drafod rhai problemau.

1 Nantperis: Cafwyd adroddiad fod y gwaith i baratoi ar gyfer defnyddio uned 'Siwrne Saff' bron wedi

ei gwblhau.

2 Defaid Llanberis: Bu trafodaeth bellach ar y broblem o ddefaid crwydrol. Cytunwyd fod angen gwneud rhagor i sicrhau nad oedd cymaint yn dod i'r pentref.

3 Ymladd a chamfihafio: Bu trafod ar ymddygiad gwrth gymdeithasol a fu yn Llanberis yn ddiweddar. Adroddwyd mai llanciau o ardaloedd eraill oedd wedi achosi'r cynnwrf mwyaf, a'u bod wedi bod yn teithio'n benodol i Lanberis i gyfarfod a chreu helynt.

4 Rasio Ceir a beiciau modur: Cafwyd trafodaeth ar yr elfen anghymdeithasol yma hefyd a oedd yn tarfu ar heddwch y trigolion ac yn beryglus i fforddion.

Materion yn codi o'r Cofnodion

Teledu Digidol: Cafwyd adroddiad gan y Clerc iddo gysylltu â Gwenllian Carr, swyddog Cymreig 'Digital UK' mewn perthynas a dyfodiad Teledu Digidol yn yr Hydref. Roedd wedi egluro y byddai mast teledu Bigil yn trosi'n ddigidol bryd hynny a byddai pawb sy'n derbyn llun o Bigil ar hyn o bryd yn debygol o gael llun wedyn. Go brin, meddai, y byddai cyrhaeddiad y lluniau digidol ddim gwell na'r rhai analog presennol. Os na fyddai gwasanaeth digidol ar gael trwy 'Freeview' o Bigil y dewis fyddai troi at wasanaeth lloeren 'freesat' neu 'Sky'. Byddai'n bosib cael hynny trwy wneud un taliad i'r naill gwmni neu'r llall os nad oedd rhywun yn dymuno ymuno â gwasanaeth a thalu'n fisol.

Gorchymyn Traffig Arfaethedig Llanberis a Nantperis: Penderfynwyd cefnogi'r mwyafrif o argymhellion a gyflwynwyd gan CG, ond roedd pryder nad oedd llinellau Ffordd Tŷ Du yn mynd yn ddigon uchel i fyny'r ffordd, ac roedd amheuaeth a fyddai mwy o linellau ar ffordd o Flaen Ddôl i gyfeiriad yr eglwys yn gwneud mwy na symud ceir o un lle i le arall.

Cynllunio

CG:

• C09A0140/15/LL - Estyniad un llawr ar ochr yr eiddo - 15 Dôl Elidir, Llanberis - Dim gwrthwynebiad.

APCE:

• NP3/15/11D - Cais llawn i ddymchwel adeilad allan presennol ac adeiladu teras o 4 tŷ deulawr, creu mynedfa newydd i gerddwyr a cherbydau, a chreu maes parcio cysylltiedig - Tir ger Glyn Peris, Nantperis - Gwrthwynebu ar sail maint ymwithiol y datblygiad, lled y fynedfa i gerbydau, dyluniad gwael mewn 'ardal cadwraeth'. Cynnig ac eilio: OG/HS.

Wedi eu Caniatáu / Gwrthod

CG: Caniatáu:

• C09A/0059/15/CR - Newidiadau mewnol i adeilad rhestredig - Glyn Padarn, Llanberis

• C09A/0117/15/LL - Estyniad ar y llawr cyntaf - Llwyn Dyrus, Llanberis

• C09A/0140/15/LL - Estyniad un llawr ar ochr yr eiddo - 15 Dôl Elidir, Llanberis

CG: Gwrthod:

• C08A/0617/15/AM - Cais amlinellol i godi annedd un llawr - Llain o dir, Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis.

Unrhyw Fater Arall

• **ULIC:** Adroddiad gan y Cadeirydd o gyfarfod y gangen leol lle'r oedd un o swyddogion y Bwrdd Iaith wedi rhoi cyflwyniad ar ddwyieithrwydd a gweithredu'n Gymraeg.

• **Cyfnwida Bws Dôl y Goeden:** Adroddwyd fod un o'r meinciau llechen wedi ei difrodi eto.

• **Parcio Nant Ffynnon:** Cytunwyd i godi arwydd dwyieithog 'Parcio i drigolion yn unig' wrth fynedfa'r tai.

• **Bylchau mewn waliau ffordd:** Yn dilyn y gwaith adeiladu waliau yn Nantperis yn ddiweddar gofynnwyd oedd modd mynd ar ôl CG i drwsio waliau eraill yn yr ardal.

CEIR CYMRU
BETHEL
(01248) 670451
www.ceircymru.com

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddioleu i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 18 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcangyfrif i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2009 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmmiau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Mênai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref
Symudol:



07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869



Ar Ben Arall y Lein

Mae cryn gynhyrfu'r dyfroedd wedi bod yn ddiweddar wrth i Undeb Canwio Cymru wrthod ail-adnewyddu cytundebau mynediad ar nifer o afonydd Cymru. Does dim cytundeb yn bod ar ein dyfroedd yma ond, wrth gwrs, rydym yn caniatáu mynediad dirwystyr ar ein dyfroedd ar Lyn Padarn.

Meddylfryd yr Undeb yw rhoi pwysau ar y Cynulliad Cenedlaethol i ddedfrydu i roi hawl mynediad dirwystyr ar unrhyw amser yn ddi-dâl i holl ddyfroedd Cymru, a dyna broblemau fuasai hynny yn ei achosi. Pwy 'sgotwr fuasai wedyn yn talu, er enghraifft, £70 am drwydded i Asiantaeth yr Amgylchedd i gario genwair ac wedyn tâl aelodaeth i'n cymdeithasau lleol am y frainc o gael dwsinau o ganws yn mynd heibio, a rheini i gyd yn cyfrannu dim dimau at gynnal yr adnodd. Mae perygl mawr os buasai hyn yn dod i rym, y buasai ein cymdeithasau lleol yn gweld gostyngiad sylweddol yn eu hincwm, a hyn yn arwain at fethu cyfarfod eu goblygiadau i dalu rhenti. Felly fe adawaf i chwi ddyfarnu ar y canlyniadau i ni fel trigolion lleol.

Rydym fel cymdeithas yn ymwybodol bod rhai unigolion lleol yn diddori yn y maes canwio, a da yw hynny, ond y gwirionedd ydi bod y rhan fwyaf o'r rhain yn dod o du allan i'r fro, a negyddol iawn fuasai eu cyfraniad hwy at yr economi leol.

Oes mae llawer o ganolfannau awyr agored yn yr ardal, ac ydi, mae rhain yn codi tâl sylweddol i rai ddod i aros, ond does yr un o'r rhain yn fodlon cydweithio gyda ni yn lleol i greu rhywbeth gwerth chweil a fuasai o fudd mawr yn lleol. Enghraifft dda o hyn yw Canolfan Cyngor Chwaraeon Cymru Plas Menai. Mae rhain yn defnyddio Canolfan Tryweryn, Y Bala, ar adegau i ganwio, tua 100 milltir ar pob siwrna. Crawlfa, Llanrug, o milltir y siwrna, a maent yn gwrthod cydweithio i drefnu adnodd a fuasai'n enghraifft o gydweithio rhwng pysgotwyr a ccufadwyr. Pwy sy'n pregethu am dorri i lawr ar ddefnyddio ccir a thanwydd - y Llywodraeth, wrth gwrs, pwy sy'n ariannu'r Cyngor Chwaraeon - y Llywodraeth, wrth gwrs. Ond, wrth gwrs, does neb yn cymryd sylw ar wastraff fel hyn!

I droi at y pysgota! Llyn Dywarchen yw'r dynfa fawr oherwydd safon y stoc. Roeddwn yn bresennol ar y stocio diwethaf rhyw dair wythnos yn ôl, a rhyfeddais at

safon y brithyll. Yn eu mysg roedd rhai lliw aur, glas a gwyn, ni welais y fath beth o'r blaen, ond dyma'r drefn a'r dynfa bresennol. Fodd bynnag, mae'r polisi i'w weld yn gweithio gyda gwerthiant tocynnau eleni wedi cynyddu'n sylweddol.

Llyn Padarn. Y newyddion da yw fod nifer o dorgochiaid wedi dod i'r rhwyd eleni ond, ar y llaw arall, mewn cyfarfod ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn ddiweddar cafwyd gwybodaeth fod ansawdd dŵr y llyn unwaith eto yn achosi pryder. Mae hyn i gyd yn codi o waith carthffos Llanberis, unai fod dull gweithio'r gwaith yn ddiffygiol neu bod y capasiti ddim digon i ddelio â'r holl gynnydd yn y defnydd dros y blyneddau diwethaf. Ond, ar ddiwedd y dydd, cyfrifoldeb

Dŵr Cymru ydi gwneud yn sicr fod pethau yn cydymffurfio. Cawn weld be a ddaw yn ystod yr wythnosau nesaf.

Llyn Nantlle. Eto yn 'sgota'n eithriadol o dda, defnydd trwm ar y cychod, ond dim defnydd o gwbl ar y cwch pwrpasol at ddefnydd yr anabl. Mae eog a sewin wedi eu gweld yn neidio ym mhen ucha'r llyn.

Ar 31 Mai fe fydd gwaharddiad is-ddeddfau Asiantaeth yr Amgylchedd yn dod i ben, felly bydd cryn 'sgota ar ran isa'r Llyfni. Bydd ambell sewin ar gael ond bydd rhaid disgwyl tan ddiwedd Mehefin cyn i'r niiferoedd gynyddu.

Mae newyddion da hefyd ar y Gwryfai, yn enwedig ar lwybr pysgod Llyn Cwellyn. Gobeithio y gallaf adrodd mwy am hyn at y mis nesaf.

HUW PRICE HUGHES

RAS MOEL EILIO

Ar un o Sadyrnau mwyaf gaeafol y flwyddyn, a hynny ganol fis Mai - do, cafwyd cenlli o genllysg ar y copaon a thrwch o eira ar yr Wyddfa - mentrodd pedwar ugain o redwyr dewr (neu ffôl) ar un o glasuron rasys mynydd Prydain.

Roedd hi'n chwipio glaw wrth i'r ras gychwyn i fyny'r lôn am Fwlch y Groes, a dim ond corwynt yn wynebu'r rhedwyr wrth ddringo i fyny Bryn Mawr tuag at gopa Moel Eilio. Ymlaen wedyn ar draws y grib a chwffio'n erbyn y gwynt hyd yn oed i redeg i lawr y gelltydd. Dringo'r Foel Gron a chael eu sugno gan y gwynt yn y bwlch cyn ymbalfalu i fyny'r Foel Goch a disgyn unwaith eto am Fwlch Maesgwm. Oddi yno i fyny am Fwlch Carreg y Gigfran ac ymlaen i gopa Moel Cynghorion roedd y tywydd ar ei waethaf, a'r cenllysg miniocaf yn fflangellu pob rhan o'r corff. Doedd hi fawr gwell yn disgyn i lawr trwyn serth Moel Cynghorion, crocsi'r afon a dringo'n ôl i lwybr Maesgwm cyn hercian

yn rhylllyd a gwlyb socian i lawr am Lwyn Celyn.

Roedd yr amgylchiadau'n ormod hyd yn oed i'r rhedwyr gorau, ac er mai Tim Davies o Glwb Mercia enillodd, roedd ei amser bron i ddeng munud yn arafach nac arfer. Y rhedwr lleol cyntaf oedd Dafydd Williams o Lanberis, yn chweched yn y ras ac yn gyntaf yn yr adran dros 40 oed. Roedd hefyd yn aelod o dim buddugol Rhedwyr Eryri. Cafwyd llwyddiannau lleol eraill hefyd, gydag Arwel Lewis o Fethel a Gwynfor Owen o Lanberis yn ail a thrydydd yn yr adran dros 50 oed, Dafydd Thomas o Lanrug yn gyntaf yn yr adran dros 60 oed, a Jenny Heming o'r Fachwen yn ail yn adran y merched.

Ond yn sicr, yr enillydd ar y diwrnod oedd yr Elusen Ymchwil i Gancr. Trefnwyd taith gerdded nodedig yn ystod y bore, ac yr oedd yr elw o'r ras ei hun hefyd yn cael ei drosglwyddo i'r elusen lleol er cof am Darren Costello, gŵr ifanc o Gaernarfon a fu farw o'r afiechyd. Trefnwyr y ras oedd Tim a Jayne Lloyd o Gaeathro.

LLWYDDIANT YSGOL BRYNREFAIL

Yna perfformiad anhygoel tîm pêl-droed dan 16 Ysgol Brynrefail yn cipio Cwpan Cymru yn erbyn Ysgol Gyfun y Barri ar gae pob tywydd TNS draw yng Nghroesoswallt.

Y mae record yr Ysgol yma yng Nghwpanau Oeddrannol Cymru wedi bod yn eithriadol yn y blyneddau diwethaf. Byddai'n braf meddwl y buasai un o'n cyfnod ni yn ennill cap llawn i Gymru, i olynnu Malcolm Allen o gyfnod gynharach.

Fel y cyfeiriais lawer tro, braf fuasai elwa o'r cyfnod yma i ffurfio Tim y Fro i gystadlu yng Nghwpan Ieuencid Cymru.

I gyrraedd y rownd derfynol trechwyd timau Dyffryn Nantlle (5-2), Llangefni (6-3), Amlwch (1-0), Harlech (9-0) Rhosesni (3-2) ac, yn y rownd gyn-derfynol trechwyd Dinbych (2-1). Tipyn o goliau fe sylwch, gyda Gethin Maxwell yn sgorio chwech ohonynt.

Yna codi'r tlws wrth guro'r Barri 3-0 gyda goliau Gethin Maxwell, Iwan Price a Sion Kyle. Llongyfarchiadau mawr, ac hefyd i Phil Holland am ei reolaeth o'r tîm amryddawn hwn.

Ond nid dyna ddiwedd y stori. Na, dydyn nhw ddim yn mynd i Ewrop! Danfonwyd tri thîm draw i Aberystwyth ar gyfer Cystadleuaeth 7-bob-ochr pêl-droed yr Urdd. Enillodd bechgyn Bl. 9/10 drwy drechu Penweddig. Yr un fu hanes bechgyn Bl.7/8 yn curo Glantaf. Yn anffodus colli ar giciau o'r smotyn yn erbyn Penweddig oedd hanes genethod Bl.7/8. Bydd angen tipyn o Frasso draw yn Brynrefs eleni.

A dyna gronico cyfnod arbennig am griw arbennig.

Am y tro cyntaf rwy'n meddwl, rwyf wedi gorfod dal rhai straeon yn ôl ar gyfer y mis nesaf.

GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

Eryri 2012

Cyfarfod Cyhoeddus yn

Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle

Penygroes

Nos Fercher, 1 Gorffennaf, 2009

7:00 y.h.

i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Eryri

Croeso cynnes i bawb

20

12

CHWARAEON

CANMOLWN EIN IEUENCTID

Mae rhyw wefr arbennig wrth ysgrifenu y golofn y tro hwn. Nid wyf yn credu i mi dderbyn cyn gymaint o straeon yn ymwneud â llwyddiant dros y 25 mlynedd o fod yn y swydd! Braf yw croniclo llwyddiannau unigolion a thimau mewn cyn gymaint o wahanol gampau. Anodd credu weithiau, o gyflwyno'r fath hanesion, yr hen gri, 'Does dim byd i wneud.' Dyma rai sy'n gwrthddweud hynny.

Hoffwn eto gynnwys yn yr erthygl hon y llu di-enw, ac yn aml di-ddiolch, sy'n cefnogi, hyfforddi a symblu ein hieuenctid. Hwy yw'r sawl sy'n 'cynnal y fflam.'

Dechreuaf gyda'r unigolion, a chyda thriawd arbennig o un teulu - teulu y Jamesiaid o Ddeiniolen. Mae Owain (15), Elin Angharad (14) a Rhys Llywelyn (12) wedi cael cryn lwyddiant yn ddiweddar.

Mae Owain yn serenu mewn sawl camp. Ym myd athletau mae'n aelod o glwb Trac a Maes Menai, sy'n ymarfer ar gyfleusterau safonol Treborth, a hefyd yn aelod o glwb Rhedwyr Eryri. Yn bersonol hoffwn dalu teyrnged i'r ddau glwb yma sydd wedi ymestyn gornelion llawer o ieuenctid y fro hon. Yn sicr nid oedd clitaith yn fwriad gan sylfaenwyr y clybiau.

Mae Owain hefyd yn aelod o glwb nofio Caernarfon ac, yn ddiweddar, clwb beicio Egni. Y mae'r gwahanol elfennau yn gaffaeliad iddo yn ei gamp ddiweddaraf, sef y Triathlon, gyda'i elfennau o nofio, rhedeg a beicio. Bu'n llwyddianus yn y gamp hon hefyd nid yn unig yn lleol ond hefyd yn nalgylch gogledd-orllewin Lloegr. Wedi dod yn ail yn y dalgylch yma gwahoddwyd ef i rasio yng Nghaerdydd mewn prawf am dim Cymru. Dacth llwyddiant, a theithiodd draw i Aldershot i herio y goreuon o'r gwledydd Prydeinig eraill.

Nid ar chwarae bach mae cyrraedd a chynnal y lefel yma o berfformio. Codi am 5.30 y bore dair gwaith yr wythnos i reddeg a beicio, pum diwrnod o ymarfer y rhedeg a sesiwn hir o nofio ar nos Wener. Dyma'r ymroddiad sydd ci angen i gadw'i le yn y garfan genedlaethol. Dim rhyfedd iddo ennill tlws yn ras beic 10 milltir Llanfairpwll yn

ddiweddar.

Ar ben hyn mae wrth ei fodd yn rhedeg mynydd, ac ef oedd pencampwr ei oedran yn ystod tymor 2008. Eisoes mae wedi dechrau amddiffyn ei goron. Yn ei amser 'hamdden', mae Owain wrth ei fodd yng nghanolfan dringo dan-do y Beacon yn Ceunant, ac yn ceufadu (canwio) ar Lyn Padarn.

Rasus mynydd, ar y ffordd ac ar y trac yw maes arbenigedd ei chwaer, Elin. Bu 2008 yn flwyddyn anhygoel i Elin yng nghyfres rasus Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru. Enillodd pob ras gan drechu pawb ar lethrau heriol Y Garn, Cadair Idris, Moel Siabod a



Elin James

Moel Hebog. Er wedi ei hanafu, daeth yn ail yn y gyfres Rasus Nos Fawrth sy'n britho ein bro.

Ym myd traws gwlad, hi gipiodd cyfres Gogledd Cymru yn 2007. Cynhyrechiodd Gogledd Cymru ac, wrth gwrw, Ysgol Brynrefail ym mhencampwriaeth Ysgolion Cymru.

Dyn dŵad ydw i mewn un ffordd i'r fro hon, ond rwyf mor ymwybodol o falchder plant yr ardal yma yn eu hysgol ac wrth gae, cynrychioli yr Ysgol honno - nid yn unig ym myd y chwaraeon. Ysgol arbennig â pharch yn ei gwreiddiau yw Ysgol Brynrefail.

Y trydydd o'r Jamesiaid yw Rhys Llywelyn, y cyw yn y nyth. Rhedeg traws gwlad yw priod faes Rhys. Wedi ennill pob cystadleuaeth yr Urdd ar gwrw y Faenol, yn 2008 dacth

y Rasus Nos Fawrth. Cafodd ddechreuad gwyh i 2009, ac roedd yn ddiguro wedi tair ras. Ar y trac daeth yn ail yn ras 800m pencampwriaeth dan do Cymru yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. O ia! mae yntau wedi cael y byg Triathlon ac wrth ei fodd yn cystadlu. Ar ben hynny mae'n aelod o dim pêl-droed Llewod Llanrug a gipiodd gwpan Gogledd Cymru yn ddiweddar.



Owain James

yn bencampwr ysgolion cynradd Cymru draw yn Abertawe. Yna ennill Pencampwriaeth Cross Challenge Prydain yng Nghaerdydd i ddisgyblion Bl.6.

Er ei oedran daeth yn bedwerydd yn y ras i ddisgyblion Bl.7/8. Cafwyd perfformiadau disglair i gipio coron Gogledd Cymru ym myd y traws gwlad yn 2007 a 2008. Fel y ddau arall mae Rhys yn amddiffyn ei goron yn



Rhys James

HOCI

I fyd yr hoci merched nesaf. Llwyddodd tim -15 clwb Caernarfon, sy'n cynnwys rhai o ddisgyblion Ysgol Brynrefail, gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru. Eu gwrthwynebwyr oedd clwb Bae Abertawe, clwb llawer iawn mwy o ran aelodau. Er i'n genethod golli 6-0 roedd un o'u hyfforddwyr, Llinos Williams, yn hapus iawn gyda perfformiad a dyfalbarhad y tîm. Anaml mae pennau timau o'r ardal yma yn disgyn. Yn sicr bydd y genethod yn elwa o'r profiad.

LLEWOD LLANRUG



Symudaf yn awr i fyd y timau. Mae clwb Llewod Llanrug yn prysur gwneud enw iddynt eu hunain. Soniais eisoes fod un garfan wedi ennill Cwpan y Gogledd eleni.

Tro y garfan dan 9 oedd hi yn ddiweddar gan ddychwelyd o Dwrnament Caernarfon

gyda'r prif dlws. Edrychwn ymlaen i'w gweld yng Nghystadleuaeth Tlws yr Eco, a gynhelir am y tro cyntaf eleni yn Neiniolen. Diolch am wahoddiad y pwyllgor yno, a byddaf yn cysylltu â'r gwahanol dimau gyda'r trefniadau yn y dyfodol agos.